
Rhif: **WG13943**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynnal Cymru Fyw

Papur Gwyrdd ar ffordd newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **30 Ionawr 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **31 Mai 2012**

## Trosolwg

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn gofyn ichi am eich barn am ffordd newydd o reoli a rheoleiddio'r amgylchedd yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad yn dylanwadu ar Fil Amgylchedd 2014/15 sydd yn yr arfaeth a'r Bil Cynllunio, sydd hefyd yn yr arfaeth. Bydd y cynigion hyn o ddiddordeb arbennig i fusnesau rheoledig ac i'r rheini sy'n defnyddio ac yn rheoli ein tir a'n dŵr, gan gynnwys ffermwyr a choedwigwyr, sydd rhyngddynt yn rheoli mwy na 75% o dir Cymru.

## Sut i ymateb

Rydym yn croesawu ymatebion i'r Papur Gwyrdd hwn er mwyn ein helpu i lunio ein cynigion deddfwriaethol yn y dyfodol. Rydym am wybod a yw pobl yn awyddus i weld dull radical ac ai'r camau cyntaf yr ydym yn eu cynnig yw'r rhai cywir.

Efallai y byddwch am ddefnyddio ein ffurflen ar-lein i ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol yn eich barn chi. Caiff yr ymatebion a ddaeth i law fel rhan o hen ymgynghoriad Cymru Fyw eu hystyried hefyd ac ni fydd angen eu cyflwyno eto.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ymgynghori a dogfennau cysylltiedig, ewch i www.cymru.gov.uk/cymrufyw

## Manylion cyswllt


**Enw:** Nia Evans
**Cyfeiriad:**
Dyfodol Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

**Ebost:** natureconservation@cymru.gsi.gov.uk


## Diogelu data

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r corff a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Pe bai rhywun yn nodi nad yw eisiau i'w enw na'i gyfeiriad gael ei gyhoeddi, byddem yn ystyried y ffaith bwysig hon. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau pwysig weithiau dros ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi nodi nad yw eisiau i'r manylion hyn gael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2011

# Cynnal Cymru Fyw[1]

## Papur Gwyrdd ar ffordd newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru

### 1. Pwrpas

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn gofyn ichi am eich barn am ffordd newydd o reoli a rheoleiddio'r amgylchedd yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad yn dylanwadu ar Fil Amgylchedd 2014/15 sydd yn yr arfaeth a'r Bil Cynllunio, sydd hefyd yn yr arfaeth. Bydd y cynigion hyn o ddiddordeb arbennig i fusnesau rheoledig ac i'r rheini sy'n rheoli ein tir a'n dŵr, gan gynnwys ffermwyr a choedwigwyr, sydd rhyngddynt yn rheoli 75% o dir Cymru.

Y cynnig canolog yw ein bod yn symud at reoli a rheoleiddio'r amgylchedd ar lefel yr ecosystem[2]. Bydd hynny'n golygu ystyried a rheoleiddio'r amgylchedd a'i iechyd yn ei gyfanrwydd yn hytrach na delio ag agweddau gwahanol ar wahân. Bydd yn golygu blaenoriaethu'r galw ar ein hadnoddau naturiol i ddarparu gwasanaethau gwahanol i gymdeithas – yn amrywio o werth yr amgylchedd ei hun, i gynhyrchu bwyd a defnyddio'r tir i godi tai arno. A bydd yn sbardun inni gymryd camau lleol a chenedlaethol i wneud y gorau o'r cyfleoedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sydd ar gael i ni fel gwlad.

Byddwn yn disgwyl i'r ffordd newydd hon o reoli:

- wneud ein hamgylchedd a'r bioamrywiaeth sy'n ei gynnal yn gryfach a mwy amrywiol;
- creu prosesau rheoleiddio symlach a mwy cost-effeithiol;
- rhoi mwy o sicrwydd i benderfynwyr.

Mae hyn yn rhan bwysig o'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ac at sefydlu hinsawdd adeiladol ar gyfer buddsoddi a chreu swyddi at y tymor hir yn ein cymunedau gwledig a threfol. Mae hyn yn hanfodol y dyddiau hyn.

Mae'r prif gwestiynau y carem eich help i'w hateb yn cael eu rhestru ar dudalen 32.

### 2. Cefndir

Natur, tir, dŵr ac aer yw adnoddau pwysicaf Cymru. Gyda chymdeithas yn gofyn am fwy a mwy gan y gwasanaethau y mae ein hadnoddau naturiol yn eu darparu, un o'r sialensiau mwyaf rydym yn ei hwynebu yn y 21ain ganrif yw sicrhau amgylchedd iach, cryf a chynhyrchiol nawr ac yn y dyfodol sy'n gwasanaethu'r gymdeithas gyfan gan gynnal swyddi a gofalu am ein lles.

Am ragor na 60 mlynedd, mae llywodraethau wedi ceisio gwarchod, rheoleiddio a rheoli'r amgylchedd trwy gyfryngau amrywiol ac am amrywiaeth o resymau, gyda

[1]Gweler: www.cymru.gov.uk/cymrufyw am fanylion datblygiad 'Cymru Fyw' a ***Chynnal Cymru Fyw.***
[2] http://www.cbd.int/ecosystem/.

deddfau ar wahanol agweddau ar yr amgylchedd naturiol yn esblygu ar wahân fel ymateb i wasgfeydd gwahanol.

Cafodd cynllunio gwlad a thref ei gyflwyno yn y 1930au a'r 1940au, yn bennaf i ymdrin ag ymlediad y dinasoedd ac i ddiogelu'r tiroedd agored rhwng trefi. Cafodd y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) cyntaf eu creu ym 1949 i warchod eu rhinweddau arbennig. Cafodd mesurau eu cyflwyno gam wrth gam i reoli llygredd ac i wella ansawdd yr aer a dŵr yn wyneb diwydianoli a threfoli trwm. Cafodd deddfwriaeth cadwraeth natur ei datblygu i warchod safleoedd natur a rhywogaethau penodol.

Roedd gan bob un o'r cyfryngau hyn ei sail cyfreithiol, ei gyrff darparu a'i systemau. Rydym hefyd wedi cael dilyniant o ddeddfau Ewropeaidd ar bob agwedd ar yr amgylchedd dros y 30 mlynedd diwethaf. Ceir crynodeb o rai o brif elfennau'r systemau hyn yn Atodiad A.

Â'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael pwerau deddfu newydd, mae cyfle gennym nawr i adfywio'r system sydd wedi esblygu dros y blynyddoedd a chreu ffordd o reoli sy'n fwy unol ac sy'n ateb y pwrpas yn well. Dylem anelu at ddatblygu system sy'n symleiddio ac yn cydlynu'r ffordd yr ydym yn diogelu ac yn rheoli'n hadnoddau naturiol o fewn ein hegwyddor ganolog o ddatblygu cynaliadwy.

Mae angen inni bennu'n blaenoriaethau fel ein bod yn gwireddu'n well ganlyniadau strategol ein hymrwymiadau amgylcheddol Ewropeaidd ac yn ymdrin â'r risgiau a'r cyfleoedd sylfaenol sydd yn ein hwynebu yn hytrach na cheisio datrys symptomau unigol. Trwy ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau naturiol, dylai'r ffordd newydd hon o reoli ddod â budd i gymdeithas a'r economi.

Manteision posibl y ffordd newydd hon o reoli i fusnesau a rheolwyr tir:

- prosesau rheoleiddio mwy effeithiol, effeithlon, integredig a symlach;
- gwybodaeth gliriach am ganlyniadau, cyfleoedd a chyfyngiadau amgylcheddol er mwyn helpu penderfyniadau buddsoddi;
- fframwaith mwy cyson a haws ei ragweld ar gyfer gwneud penderfyniadau amgylcheddol, trwy leihau'r ansicrwydd yn y systemau cynllunio a rheoleiddio;
- cefnogi marchnadoedd newydd ar gyfer gwasanaethau amgylcheddol, fel rheoli carbon a dŵr;
- sicrhau bod cost cydymffurfio yn fwy cyson â maint y risg i'r amgylchedd.

I gymunedau, gallai'r manteision posibl gynnwys:

- buddsoddiad positif mewn gwelliannau penodol yn yr amgylchedd lleol;
- mwy o sylw i anghenion, cyfleoedd a phryderon lleol;
- cryfhau cyfraniad pobl leol at benderfyniadau;
- gwella mynediad at fannau gwyrdd a manteision cysylltiedig o ran iechyd.

O ran yr amgylchedd, gallai'r manteision posibl gynnwys:

- targedu buddsoddiad yn fanylach i wella'r amgylchedd;
- gweithredu positif i ymdrin â'r hyn sy'n sbarduno newidiadau yn yr amgylchedd;
- cryfhau'r amgylchedd rhag gwasgfeydd y newid yn yr hinsawdd a lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd;
- mynd ati mewn ffordd strategol i adfer cynefinoedd ac i helpu adfywiad rhywogaethau;
- gwneud yn siwr bod penderfyniadau'n adlewyrchu'n well y buddiannau y mae'r amgylchedd yn eu rhoi i ni.

***Ein her yw gofalu bod gennym ecosystemau iach, cryf a chynhyrchiol sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac sy'n dod â buddiannau i gymdeithas gyfan, gan gynnal swyddi a gofalu am ein lles.***

## 3. Rheoli ar Lefel yr Ecosystem

### Beth yw'r ffordd o weithio sy'n seiliedig ar yr ecosystem?

Er mwyn llunio ffordd gyson o reoli'r amgylchedd, rydyn yn cynnig ein bod yn seilio'n ffordd o weithio ar yr ecosystem. Mae mwy a mwy o waith amgylcheddol ledled y byd yn defnyddio'r dull hwn o weithredu.

Mae'r ffordd hon o weithio wedi'i diffinio gan Gynhadledd Partïon y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol fel: *'A strategy for the integrated management of land, water and living resources that promotes nature conservation and sustainable use in an equitable way recognising that humans with their cultural diversity are an integral part of ecosystems'*. Trwy seilio'n ffordd o weithio ar yr ecosystem, mae gennym fframwaith ar gyfer deall y berthynas rhwng ardaloedd sy'n cael eu gwarchod a'r tirlun a'r morlun ehangach a ffordd i brisio'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu gan yr ecosystemau.

Mae seilio'n ffordd o weithio ar yr ecosystem yn golygu rheoli'n hamgylchedd fel system integredig lle bydd penderfyniad ynghylch un elfen yn effeithio ar berfformiad y cyfan ac ar y buddiannau y gall yr amgylchedd eu rhoi i gymdeithas. Mae rhoi'r ecosystem yn gyntaf fel hyn yn hanfodol mewn amgylchedd cymhleth a chyfnewidiol lle mae'r newid yn yr hinsawdd ac ein gofynion ffisegol ar yr amgylchedd, yn creu gwasgfeydd, risgiau a chyfleoedd cynyddol a chyfnewidiol.

### Prisio'r Amgylchedd

Mae adroddiadau Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm[3] ac Economeg Ecosystemau a Bioamrywiaeth[4] yn esbonio gwerth ecosystemau'r byd ac yn dangos mor ddibynnol

[3] Ecosystems and Human Well-being: Synthesis Report (Millennium Ecosystem Assessment) gan Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm (30 Meh 2005).
[4] http://www.teebweb.org/.

ydym ar ein hamgylchedd. Maen nhw'n dangos sut y gall gweithio gyda'r amgylchedd esgor ar atebion cost effeithiol mewn meysydd fel rheoli dŵr neu lygredd yn yr aer.

Cyhoeddwyd Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig (UK NEA)[5] ym mis Mehefin 2011. Mae'n disgrifio'r buddiannau y mae amgylchedd naturiol Prydain yn eu rhoi i gymdeithas a'r economi. Mae'n dod i'r casgliad bod y byd naturiol, ei fioamrywiaeth a'r ecosystemau sy'n rhan ohono yn aruthrol o bwysig i'n lles ac i'n ffyniant economaidd, ond eu bod yn cael eu dibrisio'n gyson mewn astudiaethau economaidd confensiynol ac yn y broses benderfynu.

Yn ôl astudiaeth yn 2001[6], amcangyfrifir bod yr amgylched yn cyfrannu £8.8 biliwn o nwyddau a gwasanaethau i economi Cymru, 9% o GDP Cymru ac 1 o bob 6 swydd yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi hyn mewn hamddena a thwristiaeth, amaethyddiaeth a choedwigaeth, codi dŵr, cadwraeth natur a rheoli gwastraff. Yn ogystal â'r ffigur hwn, mae gwasanaethau pwysig yn cael eu darparu hefyd gan yr amgylchedd i bysgota, chwarela, mwyngloddio, cynhyrchu a phrosesu bwyd, adeiladu a diwydiannau eraill. Dangosodd yr astudiaeth hon hefyd bod yr amgylchedd yn gymharol bwysicach i economi Cymru nag i economïau gwledydd eraill Prydain.

**Ein hamcan**

Er mwyn gwneud yr ecosystem yn ystyriaeth annatod wrth reoli'r amgylchedd, rydym yn cynnig mai amcan cyrff cyhoeddus fydd rheoli'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd er mwyn:

*Sicrhau bod gan Gymru ecosystemau sy'n cryfhau ac sy'n cynyddu yn eu hamrywiaeth gan ddarparu buddiannau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol nawr ac yn y dyfodol.*

**Deall ein hamgylchedd**

Er mwyn medru gwneud y newid hwn, bydd angen inni ddeall a chynnal iechyd a gweithrediad ein hecosystemau a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu.

Dyma'r gwasanaethau y mae'r amgylchedd yn eu darparu inni: ***gwasanaethau cynnal*** fel prosesau ecolegol, ffurfio pridd, ffotosynthesis a'r cylch maethu (ailgylchu ecolegol) y mae'r system gyfan yn seiliedig arni; ***gwasanaethau darparu*** fel bwyd, dŵr a phren; ***gwasanaethau rheoli*** sy'n ein helpu i reoli'r hinsawdd, llifogydd, gwaredu gwastraff ac ansawdd yr aer a dŵr; a ***gwasanaethau diwylliannol*** sy'n cynnwys y buddiannau hamddena, addysgol, esthetig ac ysbrydol y mae'r amgylchedd yn eu rhoi i ni. Mae'r diagram isod yn dangos rhai o'r gwasanaethau hyn[7].

---

[5] http://uknea.unep-wcmc.org.
[6] Valuing Our Environment 2001 (Cyngor Cefn Gwlad a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).
[7] Cewch fwy o wybodaeth yn: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/publications/ecosystemservices/?lang=en.

Er bod y gymuned ryngwladol wedi derbyn yr ecosystem fel sail ar gyfer rheoli'r amgylchedd, nid yw wedi'i mabwysiadu i raddau helaeth iawn ar lefel genedlaethol ar gyfer rheoleiddio neu reoli'r amgylchedd. Y rheswm am hyn yw am fod dulliau rheoli eraill eisoes yn bod ac am ei bod o raid yn anodd rheoli llawer o bethau gwahanol mewn ffordd integredig. Credwn fod gan Gymru gyfle unigryw i ddefnyddio dull yr ecosystem fel fframwaith fydd yn gyrru pob rhan o Lywodraeth. Gall Cymru ddangos y ffordd yn hyn o beth oherwydd ein maint ac am fod gennym drefniadau llywodraethu sy'n esblygu.

Yn yr UE, mae rhannau o ddull yr ecosystem wedi dechrau cael eu mabwysiadu yng Nghyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a Chyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr sy'n edrych ar yr holl effeithiau ar ddŵr a'u cyd-destun cymdeithasol ac economaidd. Ar lefel y DU, mae'r Datganiad Polisi Morol[8], a ddatblygwyd a'i fabwysiadu yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, yn paratoi cynlluniau morol yn y dyfodol ar lefel yr ecosystem i helpu i sicrhau datblygiad cynaliadwy ym moroedd y DU.

**Gwasanaethau Cynnal**

Geoamrywiaeth: gwahanol greigiau, priddoedd, tirffurfiau a nodweddion ffisegol

Prosesau ffisegol ac ecolegol

Bioamrywiaeth: pob organeb

Prosesau esblygol

**Gwasanaethau Rheoli**
Rheoli ansawdd aer
Rheoli ansawdd dŵr
Rheoli llifogydd a sychder
Rheoli peryglon
Rheoli hinsawdd

**Gwasanaethau diwylliannol**
Tirlun a morlun
Gwerthfawrogi natur
Iechyd meddwl a chorfforol
Hamdden a thwristiaeth
Addysg, hyfforddiant a'r awen
Cyflogaeth a gwaith gwirfoddol
Mynediad a thrafnidiaeth

**Gwasanaethau darparu**
Bwyd
Coed a deunyddiau naturiol eraill
Deunyddiau crai *e.e. carreg, llechi, mwynau*
Dŵr
Aer
Ynni
Adnoddau genetig
Adeiladau ac aneddiadau

[8] http://www.defra.gov.uk/environment/marine/protect/planning/.

**Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?**

Yng Nghymru, mae gennym brofiad o roi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar waith a datblygu'r sail y byddwn yn ei defnyddio ar gyfer datblygu cynlluniau morol. Rydym wedi dechrau ymdrin â Glastir ar sail ecosystem hefyd. Glastir yw ein cynllun rheoli tir a cheir mesurau ynddo sy'n ymdrin â dŵr (swm ac ansawdd) a charbon pridd yn ogystal â chadwraeth natur.

Dyma'r newidiadau bras y bydd gofyn inni eu gwneud i'n trefniadau rheoleiddio a rheoli i allu mabwysiadu'r ffordd newydd hon o weithio:

- trefniadau rheoli a rheoleiddio integredig holistig sy'n medru adlewyrchu amrywiaeth a chymhlethdod yr amgylchedd a'n cyd-ddibyniaeth arno;
- ffeindio'r ffyrdd gorau o weithio gyda natur i gael buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd;
- datblygu'r cynefinoedd y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol yn hytrach na dim ond gwarchod y rhai sydd gennym nawr;
- sicrhau dimensiwn gofodol cryf neu sy'n seiliedig ar le gan y bydd y ffordd orau o ddefnyddio tir neu ddŵr yn amrywio'n aruthrol o le i le;
- gweithio mewn partneriaethau er mwyn i'r gymuned ehangach allu cyfrannu.

Bydd angen nifer o flynyddoedd i'r dull newydd hwn allu magu gwreiddiau a bydd yn rhaid wrth ddeddfwriaeth hefyd. Ar hyn o bryd, mae'n anodd dweud pa newidiadau fydd eu hangen i'n prosesau a pholisïau rheoleiddio, ond rydym wedi clustnodi saith prif gam ar gyfer profi a datblygu'r manylion:

- deall ecosystemau a'u gwasanaethau'n well a sut i bennu eu gwerth er mwyn dylanwadu ar bolisïau cyfredol a phenderfyniadau'r dyfodol (gwaith cyfredol);
- cael hyd i ffyrdd i symleiddio ac integreiddio'n prosesau rheoli adnoddau, naill ai o fewn sectorau neu ar eu traws, er enghraifft rheoli risg llifogydd, rheoli dŵr a thrwyddedu amgylcheddol (2012 ymlaen);
- treialu cynlluniau rheoli adnoddau lleol ar lefel ecosystem trwy ystyried sut y gallem ddod ag amrywiaeth o gynlluniau a dynodiadau ynghyd i greu cynlluniau neu brosesau mwy cytûn, gan nodi unrhyw rwystrau neu gyfleoedd (o Wanwyn 2012);
- datblygu cynigion ar gyfer blaenoriaethau gofodol cenedlaethol ar gyfer diogelu, adfer, defnyddio a rheoli'r amgylchedd. Eu defnyddio i fwydo gweithredoedd yn y dyfodol, llywio pa seilwaith y dylid ei ddatblygu a phennu blaenoriaethau ar gyfer gwastraff, dŵr, ynni a llifogydd (2013 ymlaen);
- symleiddio strwythurau sefydliadau a phrosesau rheoleiddio trwy greu un corff amgylcheddol i gymryd lle'r cyrff rheoli a chynghori - Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a CCGC (2013/2014);
- datblygu cynigion ar gyfer Bil Amgylcheddol i symleiddio'r drefn ar gyfer rheoli'r amgylchedd naturiol (2014/15);

- cymryd camau (trwy'r Biliau Amgylcheddol a Chynllunio a chyfryngau deddfwriaethol eraill yn ôl y gofyn) i resymoli a symleiddio'r systemau rheoleiddio er mwyn rhoi dull yr ecosystem ar waith (2015 ymlaen).

**Beth yw'r cysylltiad â Datblygu Cynaliadwy**

Yr un pryd ag ystyried y ffordd newydd hon o weithio, byddwn hefyd yn datblygu'n syniadau ar sut i gryfhau'n gwaith gyda datblygu cynaliadwy. Mae rhaglen lywodraethu'r Prif Weinidog yn cynnwys ymrwymiad i ddeddfu er mwyn gwneud datblygu cynaliadwy y prif egwyddor drefniadol o fewn Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Byddwn yn holi'n holl randdeiliaid wrth inni ddatblygu'r ddeddfwriaeth datblygu cynaliadwy. Mae tair egwyddor sylfaenol ynghlwm wrth wneud datblygu cynaliadwy'n brif egwyddor drefniadol:

- **Tymor hir:** bydd pob penderfyniad yn hybu lles cynaliadwy tymor hir pobl a chymunedau, nawr ac am y cenedlaethau i ddod;
- **Integreiddio:** rhoi ystyriaeth lawn i ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a'u hintegreiddio os medrir;
- **Cyfranogiad:** cysylltu â'r bobl a'r cymunedau y bydd penderfyniadau'n effeithio arnyn nhw a'u cael i gymryd rhan.

Mae'r ffordd newydd o reoli rydyn ni'n ei hargymell yn y Papur Gwyrdd hwn yn ategu ein bwriadau i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol, ac yn gyson â nhw. Rydyn ni'n yn credu bod gwneud datblygu cynaliadwy a dull yr ecosystemau'n annatod i'n gwaith yn amcanion sy'n ategu ei gilydd ac yn rhannu'r un gwerthoedd sylfaenol.

Rydyn yn esbonio'r cynigion ar gyfer mabwysiadu dull yr ecosystemau yn yr adrannau sy'n dilyn.

## 4. Lle Rydyn ni Nawr

**Cyflwr yr Amgylchedd**

Mae ein rheoliadau, dynodiadau a mesurau rheoli wedi llwyddo i ddiogelu tirweddau gorau Cymru a gweddnewid ansawdd amgylchedd ein trefi a'n hafonydd a'n llynnoedd. Mae bron hanner o'r cant o ddangosyddion Cyflwr yr Amgylchedd[9] sydd wedi'u diffinio ac sy'n gallu cael eu monitro yn dangos gwelliant di-dor. Rydyn ni wedi bod yn neilltuol o lwyddiannus yn ddiweddar o ran ailgylchu gwastraff a gwella ansawdd yr amgylchedd lleol.

Er hynny, ymddengys bod rhai problemau amgylcheddol yn anoddach, yn bennaf os oes cyfres gymhleth o ffactorau sylfaenol neu ryngweithiol, neu os oes cyfyngiadau lleol penodol. Yn eu plith:

- mae ein gwaith ar fywyd gwyllt a chynefinoedd gwarchodedig yn dameidiog gyda nifer o rywogaethau a chynefinoedd yn dirywio er gwaethaf ein hymdrechion i'w hachub;
- ceir nifer o ardaloedd yng Nghymru lle mae ansawdd yr aer yn isel;

[9] http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/environment2010/100722/?lang=en.

- mae statws cemegol neu fiolegol rhai o'n hafonydd a'n dyfroedd ymdrochi ar yr arfordir yn isel;
- mae llifogydd wedi cynyddu ledled Cymru;
- mae'r gwasgfeydd ar amgylchedd y môr ar gynnydd;
- mae'r gwasgfeydd o'r newid yn yr hinsawdd ar amgylcheddau bregus ar gynnydd.

Yn y Papur Gwyrdd hwn, rydyn wedi creu cyfres o 'flychau herio' i ddangos yr amrywiaeth gymhleth o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried cyn datrys rhai o'r problemau sylfaenol hyn.

**Blwch Herio 1 – Adnoddau Dŵr**

Er bod Cymru'n cael mwy o law bob blwyddyn na llawer i ran arall o Brydain, nid yw hynny'n golygu y gallwn gymryd yn ganiataol bod gennym gyflenwad parhaus a diddiwedd o ddŵr. Yng Nghymru, mae'r glaw yn llifo'n gyflym i'n hafonydd ac mewn cyfnod o sychder, gall lefel ein hafonydd gwympo'n gyflym. Yn ogystal â rhoi straen ar amgylchedd y dŵr a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau yn yr afonydd hyn, mae hyn yn ei gwneud yn anodd diogelu'r cyflenwad dŵr cyhoeddus a chyflenwadau dŵr eraill. Ar hyn o bryd, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn amcangyfrif nad oes digon o ddŵr dibynadwy mewn tua 38% o afonydd Cymru i gyflenwi dŵr newydd.

Bydd mwy fyth o bwysau ar ein hadnoddau dŵr yn y dyfodol oherwydd cyfuniad o'r newid yn yr hinsawdd, y twf yn y boblogaeth a'r defnydd cynyddol posibl o ddŵr gan bob person. Mae'r rhagolygon ynghylch y newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y gallai llif naturiol afonydd yng Nghymru ostwng 40 i 60% ym misoedd yr haf erbyn y 2050au[10]. Rydym yn debygol hefyd o brofi cyfnodau sych hirach ac amlach. Gallai'r newid yn yr hinsawdd gael effaith sylweddol ar ein hadnoddau dŵr mor gynnar â'r 2020au, er y gallai amrywiadau naturiol guddio rhai o'r effeithiau hyn tan y 2030au.

O ddod i ddeall effeithiau'r pwysau hyn yn well, gallwn weithio gyda'n gilydd i reoli dŵr yn gynaliadwy at y tymor hir, gan sefydlu'r drefn gynllunio iawn fydd yn gallu ystyried yr holl opsiynau ar gyfer wynebu'r sialensiau hyn a gwneud penderfyniadau i ddiogelu'r amgylchedd a chyflenwadau dŵr yng Nghymru yn y dyfodol.


Yn ôl Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU (UK NEA), rydyn wedi rheoli rhai ecosystemau gan wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddyn nhw, megis cynhyrchiant cnydau ar dir ffermio, a rheoli'r hinsawdd trwy goetiroedd. Fodd bynnag, o'r holl wasanaethau a aseswyd o'r holl ecosystemau, gwelwyd bod rhyw 30% yn dirywio ac eraill wedi dioddef, fel pysgodfeydd môr, amrywiaeth bywyd gwyllt ac ansawdd pridd.

Mae'r NEA yn edrych ar senarios sut y gallai'n hadnoddau yn y dyfodol gael eu defnyddio i ddiwallu anghenion y dyfodol gan awgrymu, er mwyn gallu gwneud hyn

[10] Environment Agency (2008) Climate Change and River Flows in the 2050s. Science Report SC070079/SS1.

yn gynaliadwy, bod ar nifer o ecosystemau angen eu hadfer. Ceir syniad o wasgariad tir a dŵr yng Nghymru yn nhabl 1 Atodiad A[11]. Mae tua 85% o gyfanswm tir Cymru yn cael ei ddefnyddio at ddiben amaethyddiaeth neu goedwigaeth neu dir comin[12].

**Pwysigrwydd cymharol cynefinoedd bras o ran darparu gwasanaethau ecosystemau a chyfeiriad cyffredinol y newid yn llif y gwasanaethau ers 1990.**




[11] UK NEA – Chapter 20: Status and Changes in the UK's Ecosystems and their Services to Society: Wales.
[12] WAG A Statistical Focus on Rural Wales – Argraffiad 2008.

**Cymhlethdod y trefniadau darparu cyfredol**

Mae tua traean o dir Cymru, tri chwarter o'i harfordir a thraean o'i moroedd[13] wedi'u dynodi oherwydd eu harddwch naturiol neu eu pwysigrwydd diwylliannol (fel Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) neu i ddiogelu cynefinoedd, nodweddion daearegol ac anifeiliaid a phlanhigion (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig). Mae dynodiadau hefyd sy'n ymwneud â dibenion amgylcheddol penodol (fel Parthau Perygl Nitradau a Dyfroedd Ymdrochi).

Mae Tabl 2 yn Atodiad A yn dangos y prif ddynodiadau tir ar lefel Cymru gyfan. Ceir yno hefyd nifer o ddynodiadau anstatudol fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig a Safleodd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur.

Yn ogystal â'r dynodiadau, mae nifer o gynlluniau ffurfiol sy'n ymwneud â'r amgylchedd, llawer ohonynt yn rhai statudol, sy'n llywio datblygiad polisi a phenderfyniadau ar lefelau gwahanol. Fe welwch y prif enghreifftiau yn nhabl 3 Atodiad A.

Ategir y cynlluniau a'r systemau dynodi hyn gan amrywiaeth eang o drefniadau rheoleiddio. Mae trwyddedau ac awdurdodiadau eraill yn rheoli amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol, o godi dŵr i drwyddedu bywyd gwyllt. Mae gofynion eraill yn ymwneud â dynodiadau (er enghraifft "asesiad priodol" o dan y Gyfarwyddeb Gynefinoedd) neu â phrosesau sy'n arwain at wneud penderfyniadau rheoleiddio neu bolisi (Asesiad o'r Effaith Amgylchedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol).

Yn ogystal â'r systemau amgylcheddol bras hyn, ceir y system defnyddio tir ar gyfer defnyddio a datblygu tir; y gofyn bod gan awdurdodau cynllunio lleol Gynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r system cymorth amaethyddol yn ymdrin â thir amaethyddol a choedwigaeth o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredinol ac mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn effeithio ar Bysgodfeydd.

Mae'r darlun cyfan yn un cymhleth a gallai fod yn anodd ei ddeall a'i weinyddu'n iawn. Mae'r cymhlethdod hwn yn ei gwneud yn anodd cysylltu agweddau gwahanol i adlewyrchu sut mae cymaint o agweddau ar yr amgylchedd yn gysylltiedig â'i gilydd ac felly nid yw'r system bresennol yn debygol o fedru gwneud yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd yn gryfach.
I'r rheini sy'n chwilio am ganiatâd trwy'r system, gall olygu oedi a gorfod dygymod â nifer o rwystrau. Mae natur ddarniog y system yn golygu hefyd ei bod hi'n anodd yn aml rhagweld holl ganlyniadau'r ymyriadau gan arwain at golli gwasanaethau penodol ac weithiau hanfodol yn anfwriadol, fel rheoli llifogydd neu reoli hinsawdd neu ddal carbon. Gallai hynny gynyddu costau heb eisiau.

Mae llawer o'r systemau hyn yn darparu ymrwymiadau amgylcheddol Ewropeaidd penodol. Er hynny, credwn fod cyfleoedd i wella, er enghraifft trwy:

---

[13] http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/marineprotectedareas/?lang=en.

- alinio'r gofynion rydyn ni'n eu disgwyl gan sectorau unigol, er enghraifft, trwy sicrhau bod ein galw presennol ar y sector dŵr, â'r gwrthdaro posibl y mae hynny'n ei greu, yn cael ei ystyried fel un peth cyfan;
- symleiddio'r ffordd y mae caniatâd rheoleiddio'n cael ei roi trwy barhau i leihau'r angen am ganiatadau gwahanol ar gyfer yr un gweithgaredd.

Yn y tymor hwy, byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer:

- sut i asesu a yw rheoli ar sail yr ecosystem yn gweithio trwy fonitro, goruchwylio a gorfodi;
- sut y gallem alinio gofynion cyfarwyddebau'r UE yn un drefn rheoleiddio, cynllunio a monitro unigol neu integredig;
- sut y gallem roi cyd-destun gofodol clir ar gyfer penderfyniadau rheoleiddio sy'n cysylltu â'i gilydd ar draws systemau a dynodiadau.

***Rydyn ni'n credu bod llawer o le i daclo problemau amgylcheddol trwy symleiddio trefniadau presennol er mwyn canolbwyntio ar gael canlyniadau gwell er lles yr amgylchedd yn gyfan, tra'n darparu hefyd fwy o eglurder, costau is a buddiannau ychwanegol i gymdeithas.***

## 5. Gwella'r Ddarpariaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol o symleiddio'r ffordd y mae'r amgylchedd yn cael ei reoli yng Nghymru a thrwy hynny, lleihau'r baich biwrocrataidd ar sefydliadau ac unigolion. Mae'r ffordd newydd rydyn ni'n ei chynnig ar gyfer rheoli'r amgylchedd yn gyfle inni symleiddio pethau'n fawr a chael nifer fawr o fuddiannau. Prif elfennau'r cynigion hyn yw:

- Symleiddio trefniadau sefydliadol trwy greu Un Corff Cymreig newydd fydd yn dod â swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Cymreig Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth ynghyd.
- Symleiddio a gwella prosesau rheoliadol tra'n cynnal safonau, gan ddefnyddio'r cyfleoedd a ddaw yn sgil newid sefydliadol a'r rhaglen ddeddfwriaethol (Biliau Datblygu Cynaliadwy, yr Amgylchedd a Chynllunio).
- Datblygu'r cymorth ariannol cyhoeddus sy'n cael ei roi ar gyfer rheoli tir trwy gynlluniau fel Glastir, trwy ystyried offerynnau newydd ar gyfer y farchnad, gwobrwyo rheolwyr tir am ganlyniadau fel rheolaeth well ar garbon.

Bydd y mesurau hyn yn cael eu gwneud law yn llaw â'r gwelliannau i gynllunio amgylcheddol ac i'n sylfaen o dystiolaeth a chydgysylltu polisi'n well ar draws y Llywodraeth (gweler adrannau 6-8 isod).

Bydd angen ystyried y rhaglen hon o newidiadau yng nghyd-destun ein hymrwymiadau Ewropeaidd, a'i rhoi ar waith gyda gofal a rheolaeth dda mewn sectorau, lleoedd ac o fewn amserlenni gwahanol, gan ddysgu wrth inni fynd yn ein blaenau.

## Symleiddio ein trefniadau sefydliadol

Mae ein prif sefydliadau darparu statudol yn tarddu o gyfnodau a deddfwriaethau gwahanol iawn. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth (sydd ag iddo faes gwaith Prydeinig) yn dyddio o 1919. Sefydlwyd Asiantaeth yr Amgylchedd (sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr) ym 1996 trwy uno'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol, Arolygiaeth Lygredd ei Mawrhydi ac adrannau rheoli gwastraff awdurdodau lleol. A sefydlwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru fel corff Cymreig o ganlyniad i uno'r Comisiwn Cefn Gwlad a'r Cyngor Cadwraeth Natur ym 1991.

Yn 2010, fe wnaethom ni ymgynghori ar y gwaith sydd gennym mewn golwg i adfywio trefniadau sefydliadol. Roedd y gwaith hwnnw'n edrych yn bennaf ar fanteision posibl ad-drefnu gweithgareddau'r Cyngor Cefn Gwlad, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn rheoli'r amgylchedd mewn ffordd mwy integredig a chynaliadwy gan ddefnyddio'r ecosystem fel sail, yn unol â'r fframwaith newydd.

Rydym wedi bod yn ystyried dros y flwyddyn ddiwethaf a oes achos busnes dros greu un corff amgylcheddol ar gyfer diogelu a rheoli adnoddau naturiol Cymru, gan ymgorffori'n fras swyddogaethau'r tri chorff. Rydyn ni wedi dod i'r casgliad bod dadl strategol ac economaidd gref o safbwynt effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac atebolrwydd, i ddod â'r gwaith hwn ynghyd ar lefel Cymru gyfan.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio a dechrau'r broses o sefydlu'r corff newydd. Rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn cychwyn ymgynghori ar bwrpas, llywodraeth a chyfrifoldebau'r corff newydd yn gynnar yn 2012. Bydd y rhaglen i ddatblygu 'Cymru Fyw' yn bwydo'r gwaith hwn a bydd hwnnw yn ei dro yn bwydo 'Cymru Fyw'.

## Rheoleiddio gwell

Un o brif negeseuon yr ymgynghoriad anffurfiol diweddar oedd yr awydd i wella'r drefn ar gyfer rhoi pethau ar waith, hynny trwy symleiddio ac uno'r systemau rheoleiddio. Ymddengys bod yn well gan yr ymatebwyr hyn na chreu haenen arall eto fyth o reoliadau, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd yr un pryd â gwella effeithlonrwydd i'r rheoleiddwyr a'r rheini a reoleiddir.

Rydyn ni'n credu y byddai creu corff newydd, law yn llaw â'r Biliau Datblygu Cynaliadwy, yr Amgylchedd a Chynllunio, yn gyfle i edrych o'r newydd ar yr hanfodion. Byddwn felly yn comisiynu gwaith i weld sut ac i ba raddau y gallem ddod â'r systemau presennol ynghyd er mwyn gallu rhoi un drwydded neu un caniatâd. Un cwestiwn y byddwn yn ei ofyn fydd: pe baem yn rhoi cyfraith amgylcheddol Ewrop ar waith i gyd ar unwaith yn hytrach nac yn raddol dros gyfnod o 30 mlynedd, sut byddem ni'n gwneud hynny?

Yn ein hadolygiadau, byddwn yn adeiladu ar ein profiadau blaenorol e.e. wrth ddatblygu'r system Trwyddedu Amgylcheddol, sydd wedi symleiddio'r system sy'n ymdrin â cheisiadau a newidiadau rheoliadol ar gyfer busnesau a'r rheoleiddiwr. Mae'n caniatáu i'r rheoleiddwyr neilltuo adnoddau ar gyfer gwaith risg canolig ac uchel tra'n parhau i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl.

Rydyn ni'n credu bod sgôp aruthrol inni ddefnyddio dulliau gweithio sy'n seiliedig ar risg, fel y rheini sydd wedi'u mabwysiadu ar gyfer rheoleiddio dŵr yfed, mewn meysydd rheoleiddio amgylcheddol eraill. Mantais bosibl hynny yw crynhoi adnoddau ac ymdrechion lle gallent wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Rhaid inni hefyd edrych ar ein prosesau. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau sydd wedi dod i law hyd yma yn ymdrin â sut y cafodd y gyfraith ei rhoi ar waith yn hytrach nag â chynnwys y gyfraith ei hun. Byddwn yn adolygu'r ffordd y mae'r trefniadau presennol yn cael eu cynnal i wneud yn siwr bod y gyfraith yn cael ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i ddarparu buddiannau i ecosystemau ac i ateb y gofynion Ewropeaidd. Yn y tymor byr, byddwn yn asesu eto'r argymhellion a geir o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfer rhoi deddfwriaeth ar waith yn well a'i gorfodi yn well i wella'r canlyniadau amgylcheddol.

Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ymgynghoriad ar ei 11eg Rhaglen Diwygio'r Gyfraith yn 2010. Mae'r rhaglen yn cynnwys prosiect ar gyfraith bywyd gwyllt i foderneiddio a symleiddio'r fframwaith, gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng buddiannau'r rheini sy'n dod o dan y drefn gyfreithiol. Bwriad Comisiwn y Gyfraith yw ymgynghori ar ei gynigion cychwynnol yn haf 2012 ac mae wedi ymrwymo i ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid Cymru. Mae llawer o'r gyfraith bresennol yn gyffredin i Gymru a Lloegr. Rydyn yn gobeithio y gall y prosiect ategu a chyfrannu at y cynigion y bydd Llywodraeth Cymru'n eu datblygu ar gyfer newid deddfwriaeth o dan Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Bydd Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â'i gilydd wrth i'r Comisiwn ddatblygu'i gynigion.

Wrth roi'r syniadau hyn ar waith, byddwn yn ystyriol bod angen i'r canlyniad terfynol fod yn symlach, cliriach a chyflymach i'r rheini mae'n effeithio arno, a bod y camau a gymerir yn gymesur â'r risgiau i iechyd yr ecosystem. Yn arbennig, bydd yn rhaid i unrhyw newidiadau arwain at ddefnydd cynaliadwy o ecosystemau at ddibenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**Blwch Herio 2 – Rheoleiddio Dŵr**

Mae'r sector dŵr wedi'i reoleiddio'n dynn. Mae gofyn iddo gydymffurfio ag amrywiaeth eang o ofynion gwahanol a chyflawni nifer o amcanion polisi. Yn aml iawn, mae'r amcanion gwahanol hyn yn cystadlu â'i gilydd am adnoddau prin ac weithiau, maen nhw'n tynnu o gyfeiriadau gwahanol neu'n sbarduno gweithredu nad ydynt yn esgor ar ganlyniadau amgylcheddol cyffredinol da.

Rydym am feddwl am ffyrdd o ddod â'r gofynion ynghyd inni fedru cynllunio mewn ffordd holistig at y tymor hir gan ddarparu canlyniadau amgylcheddol gwell a chaniatáu buddsoddi sy'n cael ei gyllido a'i gynllunio dros gyfnod realistig o amser.

Mae'r strwythurau o fewn y diwydiant dŵr, er enghraifft adolygiad prisiau achlysurol Ofwat, yn fecanwaith fyddai'n caniatáu cynllunio integredig ar gyfer canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Byddwn yn ystyried opsiynau posibl yn y maes hwn yn fanylach yn ein hymgynghoriad ar ein Polisi Dŵr.

Byddwn yn adolygu pob un o'n meysydd polisi unigol i ystyried sut y gallem resymoli ac integreiddio gofynion wrth inni ddod i'w diweddaru. Bydd hyn yn cynnwys ein hymgynghoriad ar ein polisi ar Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd, ein trefn ar gyfer trwyddedu bywyd gwyllt a'r hyn sy'n cael ei wneud i ddatblygu trwyddedau integredig.

Yng ngoleuni'r rhaglen waith hon, byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ac Asiantaeth Amgylcheddol Ewrop i dreialu'r ffordd y bwriadwn weithio ac yna newid deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth i roi'r newidiadau ar waith.

**Rheoli Tir – Amaethyddiaeth, Coedwigaeth ac Offerynnau'r Farchnad**

**Amaethyddiaeth**

Amaethyddiaeth, a ffermio da byw yn bennaf, yw'r defnydd tir pwysicaf yng Nghymru. Mae'n defnyddio rhyw dri chwarter o arwynebedd Cymru ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig iawn at iechyd tymor hir yr ecosystem.

Rydyn ni yng Nghymru wedi creu cynllun rheoli tir, Glastir, sy'n gwobrwyo ffermwyr am ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol gyda'r nod o arafu'r newid yn yr hinsawdd, gwella dŵr, pridd a chynefin, cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a datblygu a rheoli coetiroedd ar ffermydd.

Bwriad lefel uwch Glastir neu'r 'elfen wedi'i thargedu' fel y'i gelwir, yw sicrhau gwelliannau sylweddol i statws amgylcheddol dŵr, pridd, cynefin a rhywogaeth. Efallai y bydd angen newid arferion amaethyddol i'w cyflawni. Er mwyn sicrhau'r gwelliannau a'r canlyniadau penodol hyn, bydd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru'n cael ei dargedu i'r mannau lle byddai gweithredu'n esgor ar y canlyniad a ddymunir.

Bydd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru'n parhau i fod yn fecanwaith allweddol i roi ffordd newydd o reoli tir a dŵr ar waith. Rydym am gael sector ffermio cryf a chynhyrchiol sy'n cynhyrchu cynnyrch o'r radd flaenaf i gwrdd â'r galw cynyddol am fwyd. Bydd y drefn hon yn cydnabod rôl ffermwyr a'r angen i'w hannog i arallgyfeirio eu hincwm trwy dalu iddyn nhw am reoli'r amgylchedd lle bo cyfleoedd addas yn codi.

Ar hyn o bryd, mae gofynion y Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn orfodol bod taliadau i ffermwyr am waith rheoli tir yn adlewyrchu'r costau a ysgwyddir a'r incwm a gollir. Wrth inni ddysgu mwy am holl werth yr ecosystem y mae ffermwyr yn ei rheoli i gymdeithas, mae'n bosibl y gwelwn nad yw'r trefniadau presennol yn darparu digon o'r gwasanaethau hyn. Pe gwelwn hynny, byddwn yn defnyddio'r hyn y byddwn wedi'i ddysgu am reoli ar lefel yr ecosystem i ddadlau am drefn mwy economaidd resymegol o dalu ffermwyr a rheolwyr tir am ddarparu canlyniadau amgylcheddol.

Cytunwyd ar weledigaeth ar gyfer cefn gwlad Cymru gydag undebau'r ffermwyr ac eraill yng Ngwanwyn 2011 fel rhan o gyfres o weithdai 'Cymru Fyw'[14]:

[14] Mae gweithdai 'Cymru Fyw' ar gael trwy ofyn amdanynt: nature.conservation@wales.gsi.gov.uk

*Cymunedau gwledig ffyniannus sydd â busnesau proffidiol sy'n rhan o amgylchedd cynaliadwy. Bydd cymdeithas yn gwerthfawrogi gwasanaethau'r ecosystemau fel bwyd, pren, dŵr ac ati sy'n cael eu darparu yng Nghymru gan gefn gwlad sy'n cael ei reoli'n dda.*

**Blwch Herio 3 – Mynd i'r Afael â Llygredd Gwasgarog**

Mae hon yn broblem gyffredin mewn ardaloedd trefol, ac mae'r asesiad o ansawdd ein hafonydd a'n dyfroedd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi'i gwneud yn gliriach beth yw effaith gyfan llygredd gwasgarog o amrywiaeth o ffynonellau. Mae arferion defnydd tir yn ei wahanol ffurfiau, yn cael effaith sylweddol gan gynnwys llygredd gwledig ac amaethyddol uniongyrchol, coedwigaeth a draeniad tir. Mae'n glir bod angen inni ddilyn trywydd holistig i fynd i'r afael â'r ffynonellau llygru gwahanol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal astudiaethau manwl yn nalgylch tair afon wledig i weld beth sy'n achosi problemau yn y dalgylchoedd hynny. Mae'r canlyniadau yn ei gwneud yn glir sut mae arferion rheoli tir a ffermio yn achosi llygredd gwasgarog.

Gellir lleihau llygredd gwasgarog trwy newid arferion ffermio, er enghraifft trwy godi ffensys o amgylch cyrsiau dŵr i gadw anifeiliaid allan a newid y ffordd y mae slyri a gwrtaith yn cael eu gwasgaru. Gall hynny hefyd leihau costau i ffermwyr yn y tymor hir. Bydd gofyn cynnal rhai o'r camau dros gyfnod hir o amser a bydd yn rhaid wrth gryn gydweithio â ffermwyr a newid eu hymddygiad yn ogystal â rheoliadau clir ac effeithiol a chymhellion addas.

Seilir pob agwedd ar y Cynllun Datblygu Gwledig ar egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, ac mae llawer o'i adnoddau (rhyw 71%) yn cael ei neilltuo ar gyfer rheoli tir. Bydd ffocws y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf (2014-20) yn debyg. Bydd Datblygu Cynaliadwy'n ystyriaeth bwysig hefyd o ran sut y bydd yr holl Raglenni Ewropeaidd yn gweithio gyda'i gilydd o dan y Fframwaith Strategol Cyffredin newydd.

**Coedwigaeth**

Mae ein strategaeth ar gyfer coetiroedd a choed, **Coetiroedd i Gymru** yn fan cychwyn da i geisio taro ar gydbwysedd rhwng cynnyrch uniongyrchol ac anuniongyrchol coedwigaeth yng Nghymru. Byddwn am wneud mwy yn hyn o beth wrth inni ennill mwy o brofiad o'r dull ecosystemau.

Bydd arbenigedd coedwigwyr wrth gynllunio a rheoli tir at y tymor hir ynghyd â'r tebygolrwydd y gwelwn lawer iawn o goetir yn cael ei greu i reoli'r hinsawdd ac i gyflawni llawer o amcanion eraill, yn rhan ganolog o'n gwaith i reoli adnoddau naturiol.

Fel ag yn achos amaethyddiaeth, mae cyfleoedd go iawn i'r farchnad 'dalu am iechyd a gwasanaethau ecosystemau'. Cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r ymrwymiadau Ewropeaidd perthnasol, gallai hynny olygu: cwmnïau dŵr yn gwella

ansawdd dŵr trwy fuddsoddi i greu coetir neu reoli coetir o gwmpas cronfeydd neu ddalgylchoedd afonydd, neu gallai cwmnïau fuddsoddi i greu coetir i ddal allyriadau carbon.

Byddwn yn cefnogi arloesedd yn y maes hwn, fel bod amrywiaeth ehangach o randdeiliaid yn ein helpu i wireddu amcanion ein polisïau'n well. Bydd dal rôl i'n cynlluniau grantiau coedwigaeth i roi'r cymhelliant priodol i reoli coetiroedd yn bositif a gwneud ein sector coedwigaeth yn fwy cystadleuol a gwella ei berfformiad.

Mae gan Lywodraeth Cymru ystad goetiroedd o ryw 125,000 o hectarau (rhyw 6% o arwynebedd tir Cymru). Gall ei defnyddio i ymchwilio i sialensiau ymarferol rheoli ar lefel ecosystem. Mae'r adnodd hwn eisoes yn dod â buddiannau i Gymru ond rydym wedi ymrwymo i'r syniad o reolaeth fwy egnïol ar ein hystâd er mwyn gallu datblygu ymhellach y buddiannau a geir o wasanaethau'r ecosystem yn y blynyddoedd i ddod.

**Offerynnau'r Farchnad**

Nid yw'r rhan fwyaf o gost rheolaeth wael ar dir yn cael ei chydnabod yn ariannol, er bod baich rheolaeth wael ar y sectorau cyhoeddus a phreifat yn gallu bod yn sylweddol (e.e. trwy lifogydd); felly hefyd, nid oes cydnabyddiaeth ariannol chwaith i gostau rheolaeth dda ar dir. Mae hyn yn golygu nad oes fawr o gymhellion i reoli tir mewn ffordd gynaliadwy at ddibenion ehangach. Byddai cyfleoedd sylweddol i roi buddiannau ariannol i reolwyr tir pe bai systemau rheoli economaidd priodol ac effeithiol yn cael eu creu. Yn arbennig, mae posibilrwydd fod gwerth i reoli dŵr a charbon fel ffynhonnell incwm, a byddwn yn ystyried cyfleoedd i ddiwygio yng nghyd-destun gofynion Ewropeaidd ac eraill.

**Blwch Herio 4 – Carbon Pridd**

Mae priddoedd Cymru yn dal llawer iawn o garbon, maen nhw'n ailgylchu maethynnau sy'n hanfodol i blanhigion ac yn rhwystro ac yn teneuo llygredd. Mae cadw carbon yn ein pridd trwy gadw ein hucheldir yn wlyb ac os medrir, dal mwy o garbon trwy ailwlychu tir sydd wedi cael ei ddraenio, yn hytrach na gadael i garbon ddianc i'r atmosffer, yn elfen allweddol o'n polisi newid hinsawdd. Ond bydd yn anoddach gwneud hyn wrth i'r tywydd sychu.

O'i wneud yn iawn, gallai gwaith ar wlyptiroedd yr ucheldir ein helpu i ddelio â swm ac ansawdd dŵr, gwella'r argoelion ar gyfer natur a dod â buddiannau i reolwyr tir.

Trwy reoli dŵr (swm ac ansawdd) ar lefel yr ecosystem, rydyn ni'n cynnig mwy o bosibiliadau i dalu rheolwyr tir lle bo hynny'n briodol ac yn cynnig ffordd fwy cost effeithiol o sicrhau gwelliant. Bydd yn esgor hefyd ar ganlyniadau positif i'r diwydiant dŵr. Byddwn yn parhau i weithio gydag Ofwat a'r cwmnïau dŵr i roi'r dull hwn o reoli ar waith yn y rownd buddsoddi cyfredol gan ofalu hefyd bod rowndiau buddsoddi yn y dyfodol yn cydnabod yr opsiynau hyn.

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd newydd gyda'n partneriaid i reoli carbon, gan gynnwys datblygu Cod Carbon Coedwigaeth. Gallai marchnadoedd carbon yn y dyfodol fuddsoddi ynddynt o bosib.

Trwy ddyfeisio ffyrdd newydd o weithio gyda phrosesau natur, bydd mwy o bwyslais yn gallu cael ei roi ar fuddsoddi'n bositif yn yr amgylchedd, gan gynnwys creu ac adfer darnau mawr o gynefin. Dylai hefyd leihau'r gost o gael hyd i'r ateb gorau i broblem arbennig gan y bydd modd edrych ar fwy nag un drefn reoleiddio. Bydd cyfleoedd i fusnesau hen a newydd gymryd rhan a byddwn yn ystyried yn benodol rôl 'taliadau gohiriedig' fel credydau carbon a chredydau cadwraeth os dyna fyddai'n cynnig yr ateb gorau.

## 6. Dynodiadau a'r Fframwaith Cynllunio Amgylcheddol

Fel y gwelsom, mae amrywiaeth o ddynodiadau natur, amgylcheddol a thirwedd, cynlluniau rheoli a thrwyddedau rheoliadol yn creu'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio adnoddau naturiol. Mae eu maint a'u cymhlethdod wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at lu o wahanol ofynion a chyfyngiadau. Wrth i ni symud tuag at ddarpariaeth fwy cytûn wrth reoli ar lefel yr ecosystem, mae'n debygol y bydd angen mwy o newidiadau sylfaenol i'n systemau cyfredol.

Yn ein barn ni, elfen ganolog o hyn fydd datblygu cynlluniau rheoli adnoddau lleol integredig er mwyn medru defnyddio'n hadnoddau naturiol yn eu cyfanrwydd mewn ffordd gynaliadwy. Y corff newydd fydd yn gyfrifol am y cynllun a'r nod fydd ei integreiddio yn hytrach na'i ychwanegu at y cynlluniau rheoli sy'n bod eisoes. Bydd hefyd yn rhoi cyd-destun i benderfyniadau cynllunio ym maes rheoleiddio a datblygu. Yr un pryd, bydd rôl dynodiadau yn fwy strategol ei natur gyda blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau yn dylanwadu arni.

Yn yr adran hon, byddwn yn edrych ar ddatblygiadau pellach ar y syniadau hyn a byddwn yn eu profi i weld a ydy'r cynigion yn mynd â ni i'r cyfeiriad cywir.

### Cynlluniau rheoli adnoddau

Er mwyn gallu asesu'r problemau a'r canlyniadau amgylcheddol ehangach mewn ffordd eglur, bydd angen fframwaith cyffredin ar reoleiddwyr a rheolwyr amgylcheddol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Er mwyn darparu'r fframwaith cyffredin hwn, rydym o'r farn y bydd angen datblygu cyd-destun gofodol clir ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn eu cyfanrwydd.

Yn lleol, rydym yn cynnig profi'r ffordd orau o wneud y cysylltiadau rhwng dynodiadau a chynlluniau amgylcheddol lleol, a nodi cyfleoedd a dulliau rheoli newydd drwy ddatblygu cyfres o gynlluniau peilot lleol, i'w gweithredu gan gyrff darparu statudol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol.

Ein hamcan fyddai cynnig fframwaith cyson i gyrff statudol allu gwneud penderfyniadau, gan sicrhau bod unrhyw wrthdaro rhwng amcanion sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael ei ddatrys o'r cychwyn. Gallai mabwysiadu ffordd ofodol gyson o weithio gynnig cyfle newydd i gydweithio â chymunedau a pherchnogion tir lleol ar yr hyn sydd o bwys iddyn nhw am yr ardaloedd maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddyn nhw, ynghyd â'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn y cynlluniau peilot cychwynnol hyn, byddwn yn ystyried pa fframwaith y dylem ei ddewis ar gyfer y dyfodol i reoli adnoddau lleol. Gallai ddefnyddio dealltwriaeth o swyddogaethau ecosystem o fewn cyfundrefnau presennol, cyhoeddi cynllun gweithredol lleol i ddylanwadu ar waith ein cyrff darparu statudol, neu un cynllun rheoli adnoddau lleol statudol i gymryd lle neu i integreiddio nifer o gynlluniau amgylcheddol. Gallai fod yn gynllun statudol ehangach ag iddo statws ffurfiol efallai yn y broses benderfynu.

Mae'r dulliau gweithredu cyfredol wedi'u gosod mewn cyfraith, gyda llawer ohonynt ar lefel yr UE, felly bydd angen sicrhau bod unrhyw ffordd newydd o weithio yn dal i fodloni gofynion yr UE . Mae'r dulliau gweithredu cyfredol yn amrywio o ran eu hamserlenni, eu patrymau gofodol a'u manylder, felly bydd y cynlluniau peilot hefyd yn nodi rhwystrau penodol ar gyfer mabwysiau ffordd fwy cytûn o weithio ac amserlen ar gyfer newid.

Bydd y cynlluniau peilot yn datblygu syniadau ar gyfer Bil Amgylchedd yn y dyfodol, ac yn arbennig i ba raddau y mae'n bosibl cyfuno'r systemau cyfredol mewn cyfraith newydd.

Wrth roi'r gwaith hwn ar brawf, mae'n bwysig deall mai'r cynlluniau a'r prosesau cyfredol sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer perchnogion tir a phenderfynwyr unigol. Yr hyn fydd yn dyngedfennol fydd eu penderfyniadau ynghylch defnyddio tir a môr yn y dyfodol.

***Mae angen llywio'r ffordd newydd o weithio yn glir drwy nodi cyfleoedd ar gyfer defnyddio tir a dŵr yn gynaliadwy mewn partneriaeth â pherchnogion tir, ffermwyr, pysgotwyr, busnesau a chymunedau lleol.***

**Gosod cyd-destun cenedlaethol**

Bydd cynlluniau rheoli adnoddau lleol yn helpu penderfynwyr lleol i weld y cysylltiad rhwng gofynion lleol sy'n cystadlu â'i gilydd. Rydym yn credu bod angen cyd-destun cydlynus yn genedlaethol hefyd i sicrhau ffordd gyson o weithio. Byddai hyn yn sicrhau bod pob amcan amgylcheddol yn cael ei osod yng nghyd-destun y llall a'i fod yn berthnasol i dargedau a nodau cenedlaethol.

Ar hyn o bryd rydym yn llunio nifer o gynlluniau a pholisïau amgylcheddol cenedlaethol sy'n gosod cyd-destun gofodol ar gyfer penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd, ond nid ydym yn dod â nhw ynghyd o fewn un fframwaith, er bod Cynllun Gofodol Cymru yn ceisio rhoi cyd-destun bras i benderfyniadau.

Mae'n prif bolisïau gofodol o ran yr amgylchedd yn ymwneud ar hyn o bryd ag ynni adnewyddadwy, llifogydd, ansawdd ac adnoddau dŵr, seilwaith gwastraff, y tirwedd a chadwraeth natur. Rydym yn bwriadu ymchwilio i'r posibilrwydd o lunio un fframwaith gofodol ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol yng Nghymru, gan ddod â'r gwaith sy'n bod eisoes ynghyd, datrys amcanion sy'n gwrthdaro â'i gilydd a nodi cyfleoedd i wella canlyniadau drwy gysylltu amcanion cyffredin yn fwy eglur.

Byddwn yn ceisio amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y materion hyn yn glir ar lefel genedlaethol fel eu bod yn fwy eglur i ddatblygwyr, buddsoddwyr a phenderfynwyr.

Ochr yn ochr â'n Cynllun Seilwaith Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer prosiectau cyfalaf, byddai hyn yn tynnu ynghyd ac yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer seilwaith mawr yng Nghymru.

Mae gan wledydd fel yr Iseldiroedd hanes hir o'r math hwn o gynllunio adnoddau cenedlaethol[15] a byddwn yn tynnu ar brofiad rhyngwladol wrth ystyried y ffordd orau i ddatblygu'n ffordd o weithio. Mae'r ffordd honno o weithio'n debygol o gyd-fynd â'r hyn rydym eisoes yn ei ddatblygu ar gyfer Cynllun Gofodol Morol, a bydd angen i ni ystyried i ba raddau y gallem gysylltu'r ddau gynllun.

Mae'r rolau a allai fod yn bwysig i gynllun adnoddau cenedlaethol newydd yn cynnwys llywio cynlluniau seilwaith cenedlaethol a chynnig fframwaith buddsoddi ar gyfer gwelliannau positif i'r amgylchedd, gan gynnig rhoi sicrwydd ar gyfer defnyddio offerynnau newydd y farchnad lle ceir cyfleoedd priodol (gweler Offerynnau'r Farchnad yn adran 5).

Bydd hyn yn arbennig o bwysig gan fod y newid yn yr hinsawdd ac effeithiau anochel eraill yn golygu y bydd angen cael hyd i leoedd newydd ar gyfer cynefinoedd i gymryd lle'r rheini a gaiff eu colli, ac er mwyn helpu rhywogaethau i symud ac addasu i'r newid. Mae'n debygol y bydd mynd ati i greu cynefinoedd yn ffordd bwysig o fynd i'r afael â'r gwasgfeydd hirdymor ar rywogaethau[16].

**Blwch Herio 5 – Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

Gyda phwysau cynyddol yn sgil y newid i'n hinsawdd, rydym yn edrych ar ffyrdd sylfaenol wahanol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Er bod amddiffynfeydd traddodiadol yn rhan o'n harfogaeth, mae perygl iddynt achosi mwy o fygythiad i'r cymunedau y maen nhw'n eu hamddiffyn pan fydd llifogydd yn digwydd. Rydym felly'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar waith rheoli perygl llifogydd yn ei gyfanrwydd, gan ddechrau trwy gadw mwy o ddŵr ar yr ucheldir ac arafu ei lif, gan ganiatáu llifogydd naturiol ar fwy o dir isel i leddfu effeithiau. Rydym hefyd yn mynd i'r afael ag achosion llifogydd dŵr wyneb trefol drwy wneud ardaloedd trefol yn fwy athraidd a hyrwyddo systemau draenio cynaliadwy i dynnu dŵr dros ben allan o'r draeniau.

Gallai cynllun rheoli adnoddau cenedlaethol hefyd nodi cyfyngiadau amgylcheddol allweddol y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gallu manteisio'n gynaliadwy ar gyfleoedd cymdeithasol-economaidd. Drwy fuddsoddi mewn mesurau a fyddai'n cynyddu capasiti ecosystemau allweddol, gallwn leihau'r pwysau ar y rheini sy'n cyrraedd eu terfyn amgylcheddol.

Gallai cynllun cenedlaethol hefyd gynnig sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer rheoleiddio mesurau digolledu neu oddi ar y safle, fel rhan o gynnig datblygu, lle byddai hynny'n rhoi'r canlyniad amgylcheddol gorau am y gost leiaf.

[15] http://english.verkeerenwaterstaat.nl/english/topics/spatial-planning/
[16] www.ukbap.org.uk/Library/BRIG/CBCCGuidance.pdf

Ein nod fydd llunio cynllun rheoli adnoddau cenedlaethol yn 2013 iddo fod yn rhan bwysig o'r cyd-destun ar gyfer rhaglenni'r UE ar ôl 2014. Bydd y rhaglenni hynny'n canolbwyntio ar amcanion EU2020, sef twf cynaliadwy, defnyddio adnoddau'n effeithlon, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r targed i 'atal ac adfer erbyn 2020 y golled mewn bioamrywiaeth a'r dirywiad yng ngwasanaethau ecosystemau'r UE, cyn belled ag sy'n ymarferol, gan gynyddu'n cyfraniad at atal y golled i fioamrywiaeth y byd.'

**Y cysylltiad â chynlluniau defnydd tir**

Un o'r heriau pwysig o ran y ffordd reoli newydd yw'r cysylltiad â threfniadau amgylcheddol y system cynllunio defnydd tir.
Ar hyn o bryd, mae'r system cynllunio gwlad a thref yn gyfryngwr pwysig mewn nifer o feysydd amgylcheddol gan mai dyma'r system sy'n rhoi'r prif gydsyniad rheoliadol (h.y. caniatâd cynllunio) ar gyfer datblygu tir. Mae defnyddio tir at ddibenion amaethyddol a choedwigaeth y tu allan i gwmpas y rheolau cynllunio, ond fel arfer bydd angen caniatâd cynllunio ar gynigion i newid defnydd tir sy'n cael ei ddefnyddio at bwrpas amaethyddol neu goedwigol ar hyn o bryd. Yn aml bydd hefyd angen caniatâd ar gynigion ar gyfer adeiladu, peirianneg a gweithgareddau eraill. Gan fod deddfwriaeth cynllunio gwlad a thref yn ymestyn i'r distyll, nid yw'n ymwneud â'r môr ar hyn o bryd.

Gall anawsterau godi lle mae angen cydsyniad defnydd tir ac amgylcheddol, neu lle nad oes angen caniatâd cynllunio ond yr effeithir ar yr amgylchedd naturiol. Rydym yn bwriadu edrych ar ffiniau systemau amgylcheddol a chynlluniau defnyddio tir i sicrhau bod penderfyniadau ystyrlon yn cael eu gwneud a thrwy ran fwyaf priodol y system. Yr amcan fydd symleiddio a sicrhau bod y mesurau rheoli gofynnol yn effeithiol.

Yn y tymor hwy byddwn yn ystyried y berthynas rhwng rheoleiddio amgylcheddol a phenderfyniadau cynllunio, a sut y gallan nhw weithio'n well gyda'i gilydd neu pryd y byddai'n well gwneud penderfyniad drwy un system yn hytrach na'r llall.

Wrth i ni ddatblygu cynllun rheoli adnoddau naturiol, bydd angen i ni ystyried statws cyfreithiol y cynlluniau fydd yn cael eu creu yn ei sgil, gan gynnwys a ddylid rhoi statws penodol iddynt o fewn y system cynllunio defnydd tir a/neu'r cyfundrefnau rheoli amgylcheddol. Mae manteision posibl i roi statws ffurfiol i gynlluniau adnoddau, hynny er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r ystyriaeth briodol wrth benderfynu sut i ddefnyddio'n tir a'n dŵr yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd gan hyn oblygiadau o ran eu paratoi a'u manylder.

Mae'r Cynllun Gofodol Morol yn enghraifft ddiweddar o roi statws ffurfiol i gynlluniau o'r fath; fel arfer rhaid i awdurdodau cynllunio, wrth benderfynu awdurdodi a gorfodi gweithgareddau sy'n effeithio ar ardal forol yn y DU, wneud hynny yn unol â'r dogfennau polisi morol perthnasol, a rhaid ystyried y dogfennau hynny wrth gymryd unrhyw gamau eraill mewn perthynas ag ardal forol yn y DU[17].

[17] Gweler Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, adrannau 58 a 59.

**Blwch Herio 6 – Rheoli Amgylcheddau sydd o dan Bwysau Mawr**

Mae nifer o amgylcheddau lleol, yn enwedig ar arfordir diwydiannol y de, lle mae cyfuniad o bwysau naturiol a dynol yn herio'r trefniadau presennol i'r eithaf ar gyfer rheoli'r amgylchedd.

Er enghraifft, mae rheoli ansawdd aer ym Mhort Talbot yn anodd oherwydd cyfuniad o amgylchiadau atmosfferig ac amrywiaeth o allyriadau llygru o brosesau diwydiannol, trafnidiaeth ac adeiladu, yn ogystal ag effaith llygredd o rannau eraill o Ewrop.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn mae angen ffordd o weithio sy'n mynd y tu hwnt i'r trefniadau rheoleiddio unigol arferol i edrych ar y canlyniadau i'r amgylchedd, yn ogystal ag arloesi ffyrdd i leihau'r pwysau.

Yn ddiweddar sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp cynghori annibynnol i adolygu'r system bresennol ar gyfer cynllunio defnydd tir ac i ystyried sut orau i ddarparu gwasanaethau cynllunio yn y dyfodol. Bydd y grŵp hwn yn helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Bil Cynllunio arfaethedig. Bydd hwnnw'n canolbwyntio ar wella'r strwythur ar gyfer cynnal y swyddogaethau cynllunio presennol. Bydd Rhaglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn llywio'r gwaith hwn a bydd canlyniadau'r grŵp cynghori'n bwydo i Raglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau y caiff Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ar faterion sydd heb eu datganoli fel gorchmynion cydsyniad datblygu ar gyfer prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol o dan Ddeddf Gynllunio 2008.

## Dynodiadau

Mae rhai dynodiadau'n ofynnol yn ôl Cyfarwyddebau Ewropeaidd neu offerynnau rhyngwladol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun ein rhwymedigaethau rhyngwladol ac Ewropeaidd, rydym yn credu bod lle i symleiddio'r drefn ddynodi bresennol (Atodiad A).

Bydd gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau yn parhau'n un o gonglfeini unrhyw ffordd reoli newydd, ond rydym am ystyried a oes angen newid y systemau presennol, hynny i wella'r amgylchedd ymhellach, i fynd i'r afael â'r gwasgfeydd cynyddol ac i gefnogi canlyniadau lluosog mewn amgylchedd deinamig.

Rydym yn credu y dylai dynodiadau yn y dyfodol ganolbwyntio ar helpu i wneud amgylchedd Cymru gyfan yn gryfach ac yn fwy amrywiol, nid dim ond nodi ac amddiffyn yr amgylcheddau gorau. I ddechrau mae hyn yn golygu ystyried defnyddio dynodiadau'n strategol i sicrhau manteision positif i gynefinoedd a rhywogaethau trwy reoli ar lefel ecosystem.

Mae hefyd angen i ni ystyried rôl dynodiadau, sydd wedi bod yn ffordd ers tro i warchod natur, a'u cymharu â'r set llawer ehangach o gymhellion a mesurau rheoleiddio sydd ar gael i ni.

Wrth ddatblygu'n syniadau gofodol, byddwn yn comisiynu gwaith yn 2012 i ystyried sut i ailalinio, diweddaru neu ad-drefnu dynodiadau i'w gwneud yn haws iddynt sicrhau canlyniadau er lles yr amgylchedd.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ymgynghori ar ddatganiad polisi newydd ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn ddiweddarach eleni, gan ystyried goblygiadau posibl rheoli ar lefel yr ecosystem. Bydd adroddiad ar yr adolygiad o ddarparu gwasanaethau cynllunio mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn cael ei gyhoeddi yn ngwanwyn 2012.

**Blwch Herio 7 – Dirywiad yn Nifer Adar**

Mae niferoedd llawer o'n bywyd gwyllt brodorol yn dirywio. Mae rhywogaethau nodedig fel y gylfinir wedi dirywio'n wael yn ein hoes ni. Gall dirywio o'r fath ddigwydd yn sgil colli a darnio cynefinoedd addas, yn bennaf yn sgil newid defnydd tir a newidiadau i arferion rheoli.

Er mwyn arafu'r dirywiad hwn, mae'n debygol y bydd angen ystod o ymyriadau y tu hwnt i'r cynefinoedd sydd wedi'u dynodi a'r cymorthdaliadau amaethyddol traddodiadol,, yn ogystal â dealltwriaeth lawer gwell o'r hyn sy'n rhoi pwysau ar yr ecosystem gyfan.

Bydd y fframwaith newydd yn gofyn i ni fabwysiadu'r drefn reoli hyblyg sy'n angenrheidiol i ddiogelu adnoddau ecolegol hanfodol (rheoli ymaddasol), gwella'n dealltwriaeth o'r hyn sy'n arwain at bwysau ar yr ecosystem gyfan a chwilio am gyfleoedd i integreiddio mesurau dros rywogaethau fel rhan o raglen ehangach o weithredu, fel y rheini i reoli risg llifogydd, adnoddau dŵr neu gronfeydd carbon.

Bydd angen i ni ddatblygu'n ffordd o ad-drefnu dynodiadau drwy weithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn rhan bwysig o'r ddeddfwriaeth newydd a fydd yn seiliedig ar sicrhau amgylchedd cryfach a mwy amrywiol yn hytrach na rhoi gwarchod yr amgylchedd a datblygu benben â'i gilydd, fel sy'n digwydd yn rhy aml.

**Cynlluniau morol**

Mae'r Cynllun Gofodol Morol eisoes yn seiliedig ar reoli ar lefel yr ecosystem. Byddwn yn ceisio trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd wrth ymdrin â'r systemau morol i'r gwaith ar dir (ac i'r gwrthwyneb) ac ymchwilio i ffyrdd o sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau morol ac arfordirol wrth ddatblygu cynllun adnoddau naturiol.

Caiff ein safbwynt ei amlinellu yn ***Our Seas – a Shared Resource*** (2009) a'i ddatblygu yn y ***Datganiad Polisi Morol*** a'n dogfen ymgynghori ***Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Moroedd Cymru: Ein Dull o Ymdrin â Chynllunio Morol yng Nghymru*** (2011). Rydym wedi hymrwymo i weledigaeth y DU o 'gefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol' ac i amcanion morol ar lefel uwch y DU ar gyfer gwireddu'r weledigaeth honno, sy'n amlinellu'r canlyniadau bras ar gyfer ardal forol y DU ac sy'n adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Mae cynlluniau morol bellach yn seiliedig ar reoli ar lefel yr ecosystem, fel y nodir yn Natganiad Polisi Morol y DU, ac yn deillio o ofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (2008/56/EC, a roddwyd ar waith yn y DU drwy Reoliadau'r Strategaeth Forol 2010). Dyma ffordd o reoli sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- mae'n sicrhau bod pwysau gweithgareddau pobl yn cael eu cadw at lefel sy'n ei gwneud yn bosibl sicrhau statws amgylcheddol da (yn ôl diffiniad y Gyfarwyddeb);
- nid yw'n peryglu gallu ecosystemau morol i ymateb i newidiadau a achosir gan bobl;
- mae'n galluogi defnyddio nwyddau a gwasanaethau morol gan genedlaethau heddiw ac yfory.

Fel ag a gynigir yn yr ymgynghoriad ***Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Moroedd Cymru: Ein Dull o Ymdrin â Chynllunio Morol yng Nghymru*** rydym yn bwriadu datblygu cynllun morol cenedlaethol ar gyfer dyfroedd glannau Cymru a chynllun morol cenedlaethol ar gyfer dyfroedd môr mawr Cymru. Hefyd, fel rhan o Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, byddwn yn ystyried a fyddai cynlluniau morol mwy lleol yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

Un o amcanion allweddol cynlluniau morol yw cynnig fframwaith polisi integredig ymarferol ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal forol, yn enwedig penderfyniadau rheoleiddiol y mae'n rhaid eu gwneud yn unol â'r Datganiad Polisi Morol. Byddwn yn ceisio alinio hyn gyda'r ffordd o reoli sy'n cael ei datblygu ar gyfer adnoddau naturiol daearol.

***Rydym yn credu y bydd ffordd ofodol mwy eglur o reoli'r amgylchedd yn llawer mwy effeithiol o ran sicrhau ein bod yn defnyddio'n hadnoddau naturiol mewn ffordd wirioneddol gynaliadwy.***

## 7. Tystiolaeth

### Trosolwg

Mae Cymru'n ffodus yn yr ystyr bod llawer o wybodaeth ar gael am statws a thueddiadau llawer o'i hamgylcheddau naturiol. Mae arolwg llawn wedi'i gynnal o'i chynefinoedd ar y tir ac mae hynny'n cael ei ailadrodd nawr trwy dechnoleg synhwyro o bell a Chymru yw'r unig wlad yn Ewrop sydd wedi mapio ei chynefinoedd yn y rhynglanw - ond nid ydym yn gwybod popeth eto, yn enwedig yn amgylchedd y môr.

Rydym yn gwybod mwy am rywogaethau a chynefinoedd ar safleoedd sy'n cael eu diogelu nag mewn mannau eraill, a mwy am grwpiau 'poblogaidd' fel adar a phlanhigion uwch nag am rai llai poblogaidd neu lai amlwg. Rydym yn gwybod hefyd am lawer o'r gwasgfeydd sy'n pwyso ar ein hamgylchedd naturiol ac rydym yn dechrau dod i ddeall yn well effeithiau'r newid i fioamrywiaeth ar y gwasanaethau a'r buddiannau i gymdeithas. Ond nid ydym yn deall y cyfan.

Un o’r heriau i benderfynwyr yw lefel y dystiolaeth benodol sydd gennym i allu dod i benderfyniad. Er enghraifft, mewn rhai achosion mae’n rhaid i ni ddibynnu ar ddata procsi neu wedi’i fodelu i asesu’r perygl o niwed mewn dalgylch penodol neu ddarn o afon. Er bod rhaid cydnabod bod cyfyngiadau ymarferol ar y dystiolaeth y gellir ei chasglu a’i hasesu, rydym am ddatblygu dull o weithio gyda thystiolaeth sy’n golygu seilio penderfyniadau’n amlach ar wybod yr effeithiau gwirioneddol mewn ardal benodol.

**Blwch Herio 8 – Iechyd Pysgod Cregyn**

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi bod yn arwain astudiaeth gan amryw randdeiliaid ar achosion marwolaeth cocos ym Moryd Byrri ger Llanelli.

Mae ail gam y gwaith hwn ar fin ei gwblhau ac mae wedi nodi ystod o broblemau. Mae rhai ohonynt, fel y newid yn ansawdd y dŵr, yn llai arwyddocaol nag yr ofnwyd yn wreiddiol.

Er mwyn datblygu’r gwaith i wella iechyd y bysgodfa, bydd angen gweithio ar draws y gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio, gan gynnwys o bosibl treialu gwahanol weithgareddau mewn gwahanol rannau o’r bysgodfa i weld pa rai sydd fwyaf effeithiol o ran helpu’r cocos i aeddfedu.

Byddwn yn parhau i weithio gyda’n partneriaid, cyrff statudol, y byd academaidd ac ymchwilwyr ehangach, gan gynnwys Llywodraeth y DU i drafod a datblygu sylfaen dystiolaeth briodol ar gyfer Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, er enghraifft drwy waith y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur[18] a Chanolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru[19]. Cynhaliodd Canolfan Ymchwil Amgylchedd Cymru asesiad o’r ymchwil sydd ei hangen ar Strategaeth Amgylcheddol Cymru (2009)[20].

## Gwybodaeth ddaearyddol

Mae systemau gwybodaeth ddaearyddol yn ei gwneud yn bosibl dangos llawer o ddata yr un pryd, fesul ardal, a bydd yn rhan hanfodol o’r gwaith newydd. Mae’n hanfodol sicrhau bod cynifer â phosibl o’r cyhoedd a chyrff yng Nghymru yn gallu cael at wybodaeth o’r fath, a’i dadansoddi a’i defnyddio. Lle medrwn, byddwn yn gwneud systemau’r gwahanol gyrff yn fwy cydnaws â’i gilydd ac yn gwneud y data sydd i’w cyflwyno a’u hastudio’n gyhoeddus yn fwy hygyrch.

[18] http://jncc.defra.gov.uk/.
[19] http://www.werh.org/nef.php.cy?
[20] http://www.werh.org/nef.php.cy?

**Monitro a Gwyliadwriaeth**

Rydym wedi datblygu rhwydwaith o orsafoedd monitro ar gyfer gwahanol elfennau'r amgylchedd. Byddan nhw hefyd yn cadw golwg uniongyrchol ar y cynlluniau rydym yn eu hariannu, fel y cynlluniau amaeth-amgylchedd, ac yn monitro'u perfformiad. Un o'n heriau mwyaf fydd cyfeirio'r adnoddau sydd gennym i'r hyn sydd bwysicaf i Gymru, yn hytrach na bod gwahanol gyrff yn canolbwyntio ar eu pynciau yn ôl eu mympwy eu hunain.

Mae cofnodwyr gwirfoddol yn chwarae rôl bwysig o ran casglu ac asesu gwybodaeth yng Nghymru. Elfen allweddol o'r ffordd newydd o reoli fydd rhoi mwy o bwyslais ar gasglu tystiolaeth ymarferol, anfon ymarferwyr allan i'r amgylchedd i weld yr hyn sy'n digwydd a chymryd camau ar sail tystiolaeth o ganlyniad.

Er enghraifft, yng nghyd-destun Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr, yn ddiweddar treuliodd swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd amser ac adnoddau yn cerdded ar hyd dalgylchoedd allweddol i olrhain ffynonellau llygredd gwasgaredig, ac wedyn cymryd camau ar sail y dystiolaeth o'r hyn oedd yn digwydd ar lawr gwlad. Rydym am ehangu'r math hwn o waith a manteisio ar arbenigedd a gwybodaeth leol cyrff partner i helpu i ddeall yr amodau ar lawr gwlad a helpu i gynnig atebion. Ar hyn o bryd mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymchwilio i gynigion gan Afonydd Cymru ar waith ar y cyd mewn perthynas â Chyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr.

Gall manteisio ar arbenigedd ac ymroddiad staff lleol a phartneriaid eraill fel hyn helpu hefyd i annog cymunedau i gyfrannu at ofalu am eu hamgylchedd lleol.

Bydd hyn yn gweithio orau o'i wneud ochr yn ochr â thechnoleg. Byddwn yn gallu defnyddio'r dechnoleg honno i fonitro perfformiad yr ecosystem sylfaenol yn drylwyrach, ynghyd â chydymffurfio â safonau a gofynion rhyngwladol. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith synhwyro o bell drwy awyren neu loeren i ddeall y gorchudd tir yng Nghymru yn well, a byddem yn disgwyl gweld mwy o ddefnydd ar y technegau hyn i ddysgu mwy am berfformiad yr amgylchedd ehangach ac am amgylchedd y mor.

Byddwn yn adolygu'r system fonitro a gwyliadwriaeth gyfan fel rhan o Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol i sicrhau ei bod yn cynnig gwybodaeth strategol yn ogystal â gwybodaeth benodol.

Gan weithio gyda grŵp cyfeirio allanol Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, byddwn yn bwrw golwg o'r newydd ar dargedau a dangosyddion presennol Strategaeth Amgylcheddol Cymru i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â rheoli ar lefel yr ecosystem.

Wrth ddatblygu ffordd o wneud penderfyniadau sy'n fwy seiliedig ar risg, fel rydym wedi'i awgrymu uchod o dan *rheoleiddio*, bydd yn bwysig integreiddio monitro yn y broses o roi prosiectau ar waith. Bydd hyn yn arbennig o bwysig mewn sefyllfaoedd lle ceir rhai cyfyngiadau anochel ar ein sylfaen dystiolaeth fel yn yr amgylchedd morol. Yn yr amgylchiadau hyn, gallai'r gofyn i fonitro fod yn amod o ganiatâd neu ddynodiad ag iddo derfyn amser. Bydd yn bwysig hefyd casglu tystiolaeth am y gallu

i wrthsefyll newid – boed ffisegol neu hinsoddol – gan y bydd yn llinyn mesur allweddol ym mholisïau'r dyfodol.

## 8. Cael Pobl a Chymunedau i Gymryd Rhan

Byddwn yn parhau i annog pobl i fod yn rhan o'r gwaith manwl o ddatblygu a chyflwyno'r fframwaith newydd, hynny ar lefel y wlad a'r ardal. I hyn lwyddo, rhaid wrth ymrwymiad a chyfranogiad llwyr yr holl randdeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys pobl leol, rheolwyr tir, ffermwyr, coedwigwyr, cynllunwyr, elusennau, busnesau, datblygwyr a mudiadau gwirfoddol, dylanwadwyr a phenderfynwyr allweddol, grwpiau buddiant, aelodau etholedig awdurdodau lleol ac arweinwyr cymunedol eraill.

Byddwn yn parhau i weithio'n glos gyda'r holl randdeiliaid sy'n gweithio ym maes amgylchedd y môr i gryfhau cyfraniad eu cynrychiolwyr at y polisi cynllunio morol ac i annog y diwydiannau sy'n defnyddio adnoddau morol i wneud hynny'n gynaliadwy ar sail ecosystemau cryf.
Fel rhan o raglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, rydym wedi sefydlu grŵp cyfeirio allanol i helpu i gynghori ar y ffordd newydd o weithio a rhannu perchnogaeth ohoni[21]. Byddwn yn dibynnu ar ystod eang o sectorau buddiant yn hyn o beth, i sicrhau bod y grŵp yn cynrychioli holl golofnau datblygu cynaliadwy ac yn helpu i sicrhau bod materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i gyd yn cael eu hystyried.

Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio systemau daearyddol newydd, ynghyd â thechnoleg symudol modern, i annog pobl i gydweithio i gofnodi gwybodaeth am adnoddau naturiol i'w chynnwys yn y cynlluniau rheoli. Mae llwyddiant ***Casgliad y Werin*** ar gyfer hanes ar-lein yn dangos potensial y cyfrwng i gael pawb yng Nghymru i ymgysylltu â'u hamgylchedd fel hyn. Byddwn yn defnyddio lansiad llwybr arfordir Cymru gyfan ym mis Mai fel llwyfan ar gyfer cysylltu â'r cyhoedd ynghylch gwerth ein hamgylchedd naturiol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl a chymunedau i'w hannog i wneud dewisiadau cadarnhaol a fydd yn hyrwyddo dewisiadau mwy cynaliadwy o ran defnydd ac ymddygiadau.

Mae mesurau i warchod adnoddau naturiol yn fwy tebygol o lwyddo os yw cymunedau lleol yn eu deall ac yn berchen arnynt, yn rhannu'r manteision ac yn cyfrannu'u gwybodaeth ac at benderfyniadau.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddyfeisio ffyrdd i ailgysylltu pobl a chymunedau â'r amgylchedd naturiol.

## 9. Llywodraeth

Bydd angen i ni sicrhau bod trefniadau sylfaenol y llywodraeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd naturiol yn ateb y diben. Ar hyn o bryd

---

[21] Gweler y Cylch Gorchwyl a'r Diagram Llif Gwybodaeth yn http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/publications/?lang=cy.

maen nhw'n aml yn rhannu bai'r system ehangach yn yr ystyr eu bod yn ystyried gwahanol agweddau ar wahân.

### Integreiddio polisi Llywodraeth Cymru

Er mwyn helpu i sicrhau bod popeth a wnawn yn seiliedig ar ddeall ecosystemau a'u gwasanaethau, rydym wedi datblygu offeryn polisi i hysbysu penderfynwyr. Caiff offeryn cymorth Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ar gyfer penderfyniadau sylfaenol ei ddefnyddio ar draws y llywodraeth er mwyn gwneud yr ecosystem a'u gwasanaethau yn ystyriaethau hanfodol wrth lunio polisïau, cynlluniau, rhaglenni neu brosiectau newydd. Bydd yr offeryn yn rhan annatod o'r trefniadau newydd y bydd Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith ac yn eu monitro.

Mae'r offeryn yn cysylltu pum egwyddor datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru mewn fframwaith syml, hyn oll ar lefel yr ecosystem. Ei ddiben fydd sicrhau canlyniadau integredig lluosog, yn unol â dyletswydd statudol Llywodraeth Cymru i baratoi, adolygu ac adrodd ar ei Gynllun Datblygu Cynaliadwy 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'[22].

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau bod Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn cael yr ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniadau ar faterion sydd heb eu datganoli.

### Dyletswyddau clir

Nid oes dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus i ystyried effeithiau ar ecosystemau. Yn hytrach ceir cyfres o ddyletswyddau penodol ar draws ystod o ddeddfwriaeth, bob un yn ymdrin i raddau amrywiol â'r effeithiau ar ecosystemau, a phob un yn cael ei fynegi mewn ffordd wahanol. Yn eu plith y mae dyletswyddau amgylcheddol, ynghyd â dyletswyddau cynaliadwyedd a llywodraethol ehangach fel y 'ddyletswydd gyffredinol i wella' a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Enghraifft benodol sydd wedi'i nodi yn yr adborth hyd yn hyn yw'r angen i gryfhau ac egluro'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus o dan adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Wrth ddatblygu'r Biliau arfaethedig dros y blynyddoedd nesaf, byddwn am fanteisio ar bob cyfle i ad-drefnu a symleiddio'r dyletswyddau presennol ar gyrff cyhoeddus. Credwn y gallai bod lle i gyfuno nifer o ddyletswyddau manwl o fewn dyletswydd gyffredinol newydd ar gyfer datblygu cynaliadwy neu eu cyfnewid amdani – gan adlewyrchu'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor drefniadol ganolog y llywodraeth.

Byddwn yn gweithio gyda CLILC, Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill i ddatblygu cynigion penodol i ymgynghori arnynt flwyddyn nesaf fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy, ochr yn ochr â gwaith symleiddio ehangach Llywodraeth Cymru. Byddwn yn sicrhau bod y syniadau a'r gwaith datblygu ar gyfer

[22] Gweler y weledigaeth yn: www.cymru.gov.uk/cymrufyw.

cynigion i reoli'r amgylchedd naturiol yn parhau i ddylanwadu ar y syniadau ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy, ac i'r gwrthwyneb, fel bod gennym un ffordd gyson o weithio ar y ddwy agenda.

**Asesiadau Statudol**

Bwriad yr asesiadau ffurfiol presennol yw nodi effeithiau penderfyniadau mawr ar yr amgylchedd. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi dechrau ystyried yr ystod lawn o effeithiau mewn ffordd fwy cydlynol wrth gynnal gwerthusiadau strategol er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag effeithiau cymdeithasol ac economaidd. Mae cyfle nawr i ystyried sut gallwn ddatblygu hyn ar lefel yr ecosystem.

Byddwn yn adolygu'r ffyrdd presennol o weithio ac yn eu cloriannu wrth inni ddatblygu'n dealltwriaeth. Byddwn hefyd yn ymchwilio i fanteision posibl sefydlu tîm Gwerthuso Amgylcheddol craidd yn y llywodraeth, efallai gan ddilyn model Llywodraeth yr Alban, i ddatblygu a llywio dulliau newydd a chyson o weithio.

Byddwn yn ystyried sut gallwn dynnu'r amryw asesiadau amgylcheddol ynghyd mewn Fframwaith Datblygu Cynaliadwy cyffredinol gyda dull yr ecosystem yn ganolog iddo. Mae'r asesiadau hynny'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, asesiad priodol o dan y Gyfarwyddeb Gynefinoedd ac eraill fel Asesu'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith Economaidd ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae rhai o'r asesiadau hyn yn gysylltiedig â Chyfarwyddebau Amgylcheddol allweddol yr UE, a bydd angen i unrhyw newid sicrhau bod amcanion y Cyfarwyddebau hyn yn parhau i gael eu cyflawni. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod modd cydlynu a chysoni'r prosesau hyn er eu bod yn aml yn annibynnol ar ei gilydd. Ein nod fydd sicrhau bod cynaliadwyedd ecosystemau yn cael ei ystyried o'r cychwyn er mwyn amddiffyn y gwasanaethau cynnal, darparu, rheoli a diwylliannol y mae ecosystemau'n eu cynnig.

Mae gweithio fel hyn yn addas hefyd ar gyfer cefnogi datblygiad cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau. Bydd yn gwella'r graddau y gall y broses asesu siapio'r cynllun, rhaglen neu brosiect tra'i fod yn cael ei ystyried, yn hytrach na'i asesu ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfio.

**Integreiddio polisi a darpariaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus**

Mae polisïau, penderfyniadau a gweithredoedd cyrff y gwasanaethau cyhoeddus yn cael effaith fawr ar ecosystemau. Bydd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cynlluniau integreiddio sengl lleol ac ôl troed rhanbarthol newydd y gwasanaethau cyhoeddus, yn cefnogi'n gryf y math o feddwl a darparu gofodol cydweithredol sydd eu hangen wrth reoli ar lefel yr ecosystem. Bydd y camau rydym yn eu cymryd i wella'r drefn graffu ddemocrataidd leol hefyd yn cefnogi cynllunio a gweithredu mwy integredig ar y lefel hon.

Bydd gan lywodraeth leol, Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a'r partneriaid mawr eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus rôl allweddol o ran llunio a chynnal rheolaeth ar

lefel yr ecosystem drwy iechyd y cyhoedd, tai, addysg, rheoleiddio a thrwyddedu a meysydd eraill. Er enghraifft, gall cyrff a sefydliadau addysg wneud cyfraniad sylweddol drwy'r agenda Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.
Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus eraill i integreiddio ffordd o reoli ar sail yr ecosystem yn eu gwaith ar ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Byddwn hefyd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gysylltu hygyrchedd mannau gwyrdd fel parciau a choetiroedd cymunedol a dyfrffyrdd, aberoedd a moroedd â gwelliannau i iechyd a lles y cyhoedd. Yn ein hardaloedd trefol, byddwn yn chwilio am weithredu 'gwyrdd' positif ac yn ceisio darparu mwy o randiroedd lle bo prinder.

**Effaith ryngwladol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwarae ei rhan lawn i fodloni ymrwymiadau Ewropeaidd a rhyngwladol a gweithio fel rhan o'r DU a'r UE i reoli ecosystemau, yn enwedig lle ceir heriau trawsffiniol. Rydym hefyd yn cydnabod rhan Cymru o ran darparu dŵr, rheoli llifogydd a darparu gwasanaethau ecosystem eraill i Loegr ynghyd â'r rheini y mae Cymru yn eu cael gan Loegr.

Mae Cymru yn allforio llawer o'r effeithiau ar ei hecosystemau i wledydd sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i ni. Mae Athrofa Amgylcheddol Stockholm wedi cyfrif mai 5.16 hectar byd-eang[23] yw ôl troed ecolegol y Cymro cyffredin. Mae hyn yn gyfwerth â bod angen tair planed ar gyfer pobl Cymru. Er enghraifft, dengys data fod Cymru'n mewnforio llawer mwy o fwyd ym mhob categori nag y mae'n ei allforio, ac eithrio porthiant i anifeiliaid. Mae angen i ni fynd i'r afael â hyn a chynnig gwersi o'n profiadau ni o reoli ecosystemau i'r drafodaeth ryngwladol.

Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith rhaglen Llywodraeth Cymru, *Cymru o Blaid Affrica*, y rhwydwaith llywodraethau rhanbarthol ar gyfer datblygu cynaliadwy[24] a Grŵp yr Hinsawdd a fydd yn cefnogi gweithredu rhanbarthol a rhyngwladol ar y mater hwn. Byddwn yn annog y cyhoedd i weithredu i gefnogi'r amcanion hyn a byddwn yn parhau i ddysgu gan wledydd eraill ledled y byd.

Bydd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn cyfrannu'n uniongyrchol at ein hymrwymiadau yn ***Cenedl Un Blaned*** i wneud yn siwr bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n well gartref a thramor.

**Y Camau Nesaf**

Gallwch gyflwyno'ch cyfraniad a'ch safbwyntiau naill ai'n ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) neu drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol. Byddem yn gwerthfawrogi clywed yn arbennig unrhyw dystiolaeth benodol sydd gennych.

---

[23] Dangosydd Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.
[24] http://www.nrg4sd.org/.

I gael rhagor o wybodaeth ar sut i gymryd rhan neu weithredu i helpu'r amgylchedd, ewch i: www.cymru.gov.uk/cymrufyw.

I gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu gweithdy, cysylltwch â: nature.conservation@wales.gsi.gov.uk

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ar y ddogfen hon byddwn yn ystyried eich ymatebion ochr yn ochr â data o ymgynghoriadau diweddar eraill i ddatblygu cynllun gweithredu cydlynol. Mae amserlen fras ar gyfer cam nesaf y rhaglen i'w gweld yn Atodiad B.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad:**

Rydym yn croesawu ymatebion i'r Papur Gwyrdd hwn er mwyn ein helpu i lunio cynigion deddfwriaethol yn y dyfodol. Mae eisiau gwybod arnom p'un a oes awydd am newid radical a ph'un a yw'r hyn rydym yn ei gynnig yn briodol. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r cwestiynau canlynol i fframio'ch ymateb, ond rydym yn croesawu ymatebion ar unrhyw bwnc arall sydd yn eich barn chi yn berthnasol:

**Cwestiynau Cyffredinol:**

Nodwch p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r pwyntiau canlynol, neu a oes angen rhagor o wybodaeth arnoch:

- Datblygu ffordd newydd o amddiffyn yr amgylchedd ar lefel yr ecosystem?
- Datblygu'r cysyniad o gynlluniau lleol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol fel ffordd symlach o weithio i randdeiliaid?
- Datblygu cynllun rheoli adnoddau cenedlaethol?
- Symleiddio cyfundrefnau rheoleiddio i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd a systemau symlach i bobl?
- Datblygu systemau gwybodaeth ddaearyddol rhyngweithiol i'w gwneud yn haws cael gwybodaeth ac ymgysylltu'n ehangach â phobl?
- Datblygu'n gwaith monitro a chasglu data i gynyddu'r pwyslais ar gasglu tystiolaeth ymarferol?

**Cwestiynau manwl:**

- Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion uchod, beth yw'ch prif resymau?
- Beth ddylai fod yn brif flaenoriaethau ar gyfer ein gwaith o ran symleiddio ac integreiddio dynodiadau, polisïau a chyfundrefnau rheoleiddio?
- Beth fyddai'ch diffiniad chi o'r prif feini prawf llwyddiant ar gyfer rheoli adnoddau naturiol?
- Beth fyddai prif linyn mesur llwyddiant yr Un Corff Cymreig newydd o ran rheoli ar lefel ecosystem?

- A ydym wedi adlewyrchu'n ddigonol y cyfleoedd ar gyfer busnes, menter a datblygu economaidd y mae'r amgylchedd naturiol yn eu cynnig? Os nad ydym, pa agweddau ydyn ni wedi'u colli?
- A ydym wedi adlewyrchu'n ddigonol y buddiannau cymdeithasol a lles y mae'r amgylchedd naturiol yn eu rhoi i bobl Cymru? Os nad ydym, pa agweddau ydyn ni wedi'u colli?
- Ble mae'r ffin rhwng cynllunio defnydd tir a chynlluniau a thrwyddedau rheoli amgylcheddol?
- Pa sgiliau ac offer fyddai eu hangen arnom i sicrhau bod y ffordd newydd o weithio yn llwyddo? Allwch chi'n helpu i'w datblygu?
- Sut gallem ni sicrhau bod cynlluniau rheoli adnoddau'r glannau a'r môr mawr yn cydblethu?
- Sut gallai cynlluniau rheoli adnoddau cenedlaethol neu leol hwyluso'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu lleol?
- A ddylid ymgorffori canlyniadau ecosystemau lleol mewn cynlluniau integredig sengl lleol?
- Beth ddylem ei wneud i greu marchnad ar gyfer y gwasanaethau amgylcheddol hynny nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau eraill sydd eu hangen i'r ddeddfwriaeth neu systemau?

Mae amryw atodiadau a dogfennau cefndirol eraill, gan gynnwys rhestr o ddiffiniadau, ar gael ar y we.

# Atodiad A

### Tabl 1: Dosbarthiad tir a dŵr presennol Cymru

| Cynefin Bras UK NEA | Cyfanswm arwynebedd (ha) | Canran (%)arwynebedd y tir | Canran (%) cyfanswm yr arwynebedd |
|---|---|---|---|
| Mynyddoedd, Rhostir a Gweundir | 227,735 | 11 | 54.86 |
| Glaswelltir Lled-naturiol | 270,002 | 13 | |
| Tir Ffermio wedi'i Amgáu | 1,066,998 | 52 | |
| Coetir | 289,216 | 14 | |
| Dyfroedd Croyw, Dyfroedd Agored, Gwlyptir a Gorlifdir | 22,770 | 1 | |
| Trefol | 94,894 | 5 | |
| Ymylon Arfordirol | 56,452 | 3 | |
| Eraill | 34,292 | 2 | |
| Morol | 1,594,175 | - | 45.14 |

### Tabl 2: Dynodiadau amgylchedd naturiol dangosol yng Nghymru

| Dynodiad | Nifer | Cyfanswm arwynebedd (i'r 100 hectar agosaf) | % o arwynebedd tir Cymru[1] | Prif sylfaen y dynodiad yng Nghymru | Prif amcanion y dynodiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Parciau Cenedlaethol | 3 | 410,300 | 19.3 | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949; Deddf yr Amgylchedd 1995 | Dynodi tirlun: gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth y cyhoedd |
| Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol | 5 | 84,400 | 4 | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 | Dynodi tirlun: gwarchod a gwella harddwch naturiol |
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | 1,047 | 260,600 | 12.3 | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | Gwarchod a gwella fflora, ffawna, neu nodweddion geolegol neu ffisiograffig o ddiddordeb arbennig: prif ddynodiad cadwraeth natur yng Nghymru |

| Dynodiad | Nifer | Cyfanswm arwynebedd (i'r 100 hectar agosaf) | % o arwynebedd tir Cymru[1] | Prif sylfaen y dynodiad yng Nghymru | Prif amcanion y dynodiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (gan gynnwys 1 Warchodfa Natur Forol) | 73 | 26,900 | 1.2 | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | Gwarchod fflora, ffawna a nodweddion eraill o ddiddordeb arbennig cenedlaethol, a rhoi cyfleoedd i ymchwilio ac astudio |
| Gwarchodfeydd Natur Lleol | 82 | 5,900 | 0.3 | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 | Gwarchod fflora, ffawna a nodweddion eraill o ddiddordeb arbennig lleol, a rhoi cyfleoedd i ymchwilio ac astudio |
| Ardaloedd Cadwraeth Arbennig | 92 | 628,800[2] | 7.5 | Cyfarwyddeb Gynefinoedd yr UE | Cynnal ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau o bwys Ewropeaidd at statws cadwraeth boddhaol |
| Ardaloedd Gwarchod Arbennig | 20 | 213,400[3] | 4.8 | Cyfarwyddeb Adar yr UE | |
| Safleoedd Ramsar | 10 | 27,100 | 1.1 | Confensiwn Ramsar y Cenhedloedd Unedig | Gwarchod a sicrhau "defnydd doeth" o wlyptiroedd o bwys rhyngwladol |
| Parthau Perygl Nitradau | | | | Cyfarwyddeb Nitradau yr UE | Nodi ardaloedd lle ceir risg o lygredd nitradau lle mae angen cymryd camau lliniaru |
| Dyfroedd Ymdrochi Dynodedig | 88 | | | Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi yr UE | Monitro, dosbarthu a rheoli effeithiol ar ansawdd dyfroedd ymdrochi |
| Ardaloedd Diogelu Dŵr Yfed | | | | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE | Nodi ardaloedd lle caiff dŵr ei godi i'w yfed a sicrhau ansawdd y dŵr hwnnw |
| Gwarchodfa Biosffer | 1 | | | Rhaglen UNESCO | Hwyluso mesurau i gysoni gwarchod bioamrywiaeth â defnydd cynaliadwy |

| Dynodiad | Nifer | Cyfanswm arwynebedd (i'r 100 hectar agosaf) | % o arwynebedd tir Cymru[1] | Prif sylfaen y dynodiad yng Nghymru | Prif amcanion y dynodiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Arfordir Treftadaeth | 14 | | | Menter lywodraethol anstatudol ar sail argymhellion y Comisiwn Cefn Gwlad ym 1970 | Hwyluso gwarchod harddwch naturiol a mwynhad a gwerthfawrogiad y cyhoedd |
| Dyfroedd Pysgod Cregyn | 26 | | | Cyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn yr UE | Gwarchod poblogaethau pysgod cregyn a chynnal ansawdd pysgod cregyn |
| Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer | | | | Deddf yr Amgylchedd 1995 | Mynd i'r afael ag ardaloedd lle nad yw amcanion/safonau ansawdd aer yn cael eu bodloni |
| Safleoedd Treftadaeth y Byd | | | | Confensiwn UNESCO | Hwyluso gwarchod, cadw a chyflwyno treftadaeth ddiwylliannol a naturiol |
| Tirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru | 58 | | | Menter anstatudol CCGC, Cadw ac ICOMOS | Cydnabod gwerth tirluniau hanesyddol, a chodi ymwybyddiaeth am eu pwysigrwydd |

- [1] Mae dynodiadau'n aml yn gorgyffwrdd. Nid chynhwysir dynodiadau morol. Rhoddir canrannau i un pwynt degol.
- [2] Morol = 469,600 ha.
- [3] Morol = 111,500 ha.

## Tabl 3: Rhestr ddangosol o Gynlluniau a Strategaethau Amgylcheddol

| Teitl y cynllun/ strategaeth | Sylfaen y cynllun/ strategaeth | Corff arwain | Prif ddiben y cynllun/ strategaeth | Ystod |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Amgylcheddol Cymru | Strategaeth genedlaethol anstatudol | Llywodraeth Cymru | Strategaeth ar gyfer polisi amgylcheddol | Cymru gyfan |
| Cynlluniau Rheoli Basn Afon | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE | Asiantaeth yr Amgylchedd/Llywodraeth Cymru | Cynnig ffordd integredig o warchod a defnyddio'r amgylchedd dŵr yn gynaliadwy | Pob basn afon yng Nghymru gyfan (tri yng Nghymru) |
| Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 | Llywodraeth Cymru | Amlinellu amcanion a mesurau cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol | Cymru gyfan |

| Teitl y cynllun/ strategaeth | Sylfaen y cynllun/ strategaeth | Corff arwain | Prif ddiben y cynllun/ strategaeth | Ystod |
|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Rheoli Traethlin | Nid cynlluniau statudol mohonynt, ond maen nhw'n dod o dan Gyfarwyddeb Llifogydd yr UE | Grwpiau Arfordirol, o dan arweiniad awdurdodau lleol | Sicrhau bod pawb yn deall perygl prosesau arfodirol ac yn cynllunio ar eu cyfer | Arfordir Cymru gyfan (pedwar ledled Cymru) |
| Cynlluniau Dlagylchoedd ar gyfer Rheoli Llifogydd | Nid cynlluniau statudol mohonynt, ond maen nhw'n dod o dan Gyfarwyddeb Llifogydd yr UE | Asiantaeth yr Amgylchedd | Sefydlu polisïau cynaliadwy hirdymor i reoli perygl llifogydd. | Cymru gyfan yn ôl dalgylch afonydd (deg ledled Cymru) |
| Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 | Awdurdodau lleol | Amlinellu amcanion a mesurau lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol | Cymru gyfan, yn ardal pob awdurdod lleol |
| Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr | Deddf Diwydiant Dŵr 1991 | Cwmnïau Dŵr | Rheoli a datblygu adnoddau dŵr er mwyn sicrhau cyflenwad dŵr ar gyfer y dyfodol | Cymru gyfan (tri ledled Cymru) |
| Cynlluniau Sychder | Deddf Diwydiant Dŵr 1991 | Cwmnïau Dŵr | Amlinellu mesurau ar gyfer rheoli sychder | Cymru gyfan (tri ledled Cymru) |
| Cynlluniau rheoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig | Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Amlinellu mesurau i gynnal neu adfer statws cadwraeth ffafriol | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Dynodedig |
| Mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu | Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol | Llywodraeth Cymru/awdurdod au lleol | Gostwng lefelau sŵn cefndir gormodol | Safleoedd dynodedig |
| Cynlluniau gweithredu Ansawdd Aer | Deddf yr Amglychedd 1995 | Awdurdodau lleol | Bodloni safonau ac amcanion ansawdd aer | Ardaloedd rheoli ansawdd aer dynodedig |
| Cynlluniau Rheoli AHNE | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 | Awdurdodau lleol | Hybu dibenion y dynodiad | AHNE |
| Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 | Awdurdodau lleol | Gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy | Pob awdurdod lleol |
| Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd | Cynlluniau anstatudol | Y Comisiwn Coedwigaeth | Cyfrannu at reoli coedwigoedd yn gynaliadwy | Coedwigoedd a reolir gan y Comisiwn Coedwigaeth |
| Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol | Cyfarwyddeb y Fframwaith Gwastraff | Awdurdodau Cynllunio Lleol – yn gweithio'n rhanbarthol | Cynnig fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer rheoli gwastraff | Cymru gyfan (3 rhanbarth) |

| **Teitl y cynllun/ strategaeth** | **Sylfaen y cynllun/ strategaeth** | **Corff arwain** | **Prif ddiben y cynllun/ strategaeth** | **Ystod** |
|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol | Deddf yr Amgylchedd 1995 | Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | Hybu dibenion y dynodiad | Parciau Cenedlaethol |
| Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | Confensiwn ar Fioamrywiaeth | Awdurdodau Lleol/Partneriaethau Lleol | Cefnogi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU drwy nodi blaenoriaethau lleol | Cymru gyfan |

# Atodiad B

## Amserlen arfaethedig ar gyfer cam nesaf Rhaglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol

**Drwy gydol 2012 a dechrau 2013:**

- Bydd gweithdai a chyflwyniadau yn ymdrin â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ar gael o hyd. Cysylltwch â nature.conservation@wales.gsi.gov.uk i drefnu un ar gyfer eich adran, corff neu gymdeithas.
- Bydd papurau cefndir ychwanegol ar gael o hyd ar y we, gan gynnwys adolygiad o ddeunydd prisio ecosystemau, adroddiad ar effeithiolrwydd y dulliau rheoleiddio presennol, gwasanaethau ecosystemau Cymru, a'r camau monitro a gwyliadwriaeth nesaf.
- Parthau Cadwraeth Morol: ymgynghoriad cyhoeddus eildro.
- Datblygu gwerthusiadau cynaliadwyedd integredig sy'n ymgorffori dull rheoli ar lefel yr ecosystem.
- Cydweithredu gyda Chomisiwn y Gyfraith ar ddeddfwriaeth bywyd gwyllt.

**Dechrau 2012:**

- Ymgynghori ar ddatganiad polisi newydd ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer un corff amgylcheddol newydd.
- Cam II Asesiad Cenedlaethol o Ecosystemau'r DU.
- Ymgynghori ar y Polisi Dŵr.

**Gwanwyn 2012:**

- Bydd papurau cefndir ychwanegol ar gael ar y we, gan gynnwys set gyfan yn ymdrin ag arwyddocâd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ecosystemau Cymru.
- Adroddiad ar yr adolygiad o ddarparu gwasanaethau cynllunio mewn parciau cenedlaethol ac AHNE.
- Treialon cyntaf ar lefel ardal.
- Lansio ymgyrch eang i gysylltu â'r cyhoedd yn ystod lansiad Llwybr Arfordir Cymru (Mai).

**Haf/Hydref 2012:**

- Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ***Cynnal Cymru Fyw.***

**O ddiwedd 2012 ymlaen:**

- Adolygu'r ffordd y rhoddir cyfundrefnau cyfredol ar waith i sicrhau darpariaeth effeithiol ac effeithlon.
- Adolygu pob maes polisi i ystyried sut y gellir integreiddio gofynion ecosystemau wrth i ni eu diweddaru.

**Yn ddiweddarach yn 2012:**

- Gweithdy deddfwriaeth i ystyried sut byddem ni'n rhoi deddfwriaeth Ewropeaidd ar waith yng Nghymru pe baem yn rhoi'r ystod lawn o gyfarwyddebau a rheoliadau amgylcheddol ar waith i gyd ar unwaith yn hytrach nac yn raddol dros gyfnod.
- Comisiynu gwaith i ddechrau ystyried sut i ailgynllunio, diweddaru neu gysylltu dynodiadau i gyflawni canlyniadau amgylcheddol gwell.
- Gwaith asesu cychwynnol ar gyfer fframwaith gofodol sengl ac egwyddorion cenedlaethol ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol lleol.
- Datblygu cyfranogiad Cymru gyfan gan gynnwys GIS.
- Ymgynghori ar y Bil Datblygu Cynaliadwy i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog yn ein holl weithredoedd ar draws y Llywodraeth a phob corff cyhoeddus datganoledig.

**Gwanwyn 2013:**

- Dyddiad breinio arfaethedig yr Un Corff newydd.
- Comisiynu gwaith i nodi sut gallwn ddod â chyfundrefnau cyfredol ynghyd i ganiatáu trwyddedau neu ganiatadau sengl.
- Ymgynghoriad Papur Gwyn y Bil Cynllunio.
- Dynodi Parthau Cadwraeth Morol.

**Hydref 2013:**

- Y Bil Datblygu Cynaliadwy: deddfwriaeth i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor drefnu ganolog yn ein holl weithredoedd ar draws y Llywodraeth a phob corff cyhoeddus datganoledig.
- Canlyniad prosiect Comisiwn y Gyfraith ar ddeddfwriaeth bywyd gwyllt

**Dyddiad targed – 2014:**

- Ymgynghori ar gynlluniau morol cenedlaethol ar gyfer y glannau a'r môr mawr.
- Papur Gwyn yr Amgylchedd yn amlinellu newidiadau deddfwriaethol posibl.

- Y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ailystyried y targedau a'r dangosyddion presennol yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r rheoli ar lefel yr ecosystem.
- Adolygu'r gwaith monitro presennol i sicrhau ei fod yn cynnig gwybodaeth strategol ddigonol, yn ogystal â gwybodaeth benodol.
- Cynnig cyd-destun gofodol clir ar gyfer rheoleiddio a phrosesau penderfynu eraill.
- Dechrau cynllunio camau i ad-drefnu a symleiddio'r system reoleiddio i gyflwyno'r ffordd newydd o weithio.

**Dyddiad targed – 2015:**

- Bil yr Amgylchedd.

**Dyddiad targed – 2016:**

- Bil Cynllunio.